

ECO'R WYDDFA

Rhif 225

GORFFENNAF 1996

Pris 30c

Yn un ar hugain oed



Bydd ymwelwyr o bell ac agos yn heidio i Lanberis ddydd Sadwrn, Gorffennaf 13, diwrnod Ras y Wyddfa. Eleni bydd dwy ras fawr gan fod Ras Ewropeaidd o bwys yn cael ei chynnal yn y prynhawn. Dylai honno fod yn ras arbennig iawn gyda thimau rhyngwladol yn cymryd rhan. Ond ni ddylid anghofio bod Ras y Wyddfa ei hun, a gynhelir yn y bore am eleni, yn cyrraedd carreg filltir arbennig gan mai hon fydd yr unfed ras ar hugain. Trowch i dudalen 8 a 9 am yr hanes yn llawn.

YN GANT OED



Bu Cwmni Rheilffordd y Wyddfa yn dathlu ei ganmlwyddiant yr wythnos diwethaf. Cynhaliwyd cinio'r dathlu yn Oriel Eryri, ddydd Gwener, Mehefin 21. Wedyn dadorchuddiwyd plac arbennig yng Ngorsaf Llanberis. Roedd y Cwmni wedi gwahodd George Thomas, Iarll Tonypany, yn westai arbennig. Ac er nad oes ganddo gysylltiad o gwbl â'r ardal na'r cwmni roedd yntau wedi addo dod. Penderfynodd y Cwmni wedyn alw injan rhif 12 yn 'George'. Yn anffodus, methodd George Thomas ddod oherwydd gwaeledd a gwahoddwyd un o weinidogion y Swyddfa Gymreig, Gwilym Jones, i ddadorchuddio'r plac ac enwi'r injan.

Roedd un o'r gwesteion wedi teithio o'r Swisdir i Lanberis. Eglurodd Mrs Peter Apt mai hen hen daid ei gŵr oedd dyfeisydd y system rac a piniwn a fabwysiadwyd gan Reilffordd y Wyddfa. Diddorol hefyd oedd deall ganddi bod yr un gŵr, Roman Apt, wedi sefydlu amryw o gwmnïau ac un ohonynt oedd y cwmni Zoecke. Dyma un o'r tri chwmni (y 'Z' yn 'MBZ') oedd yn gyfrifol am adeiladu Gorsaf Drydan Dinorwig flynyddoedd yn ddiweddarach. Yr oedd Mr a Mrs Peter Apt wedi ymweld â Llanberis yn ystod gwyliau'r Sulgwyn eleni, ac yn falch o'r cysylltiad deublyg hwn rhwng Roman Apt â'r pentref. Ac er na allai ei gŵr fod yn bresennol yr wythnos diwethaf, roedd hi'n falch o gael cyflwyno cyfarchion y teulu i Reilffordd y Wyddfa.

Y noson ganlynol cynhaliwyd cyngerdd y dathlu yn Eglwys Sant Padarn.

Yn bump ar hugain oed

Mae hi wedi bod yn wythnos brysur iawn yng Nghartref Plas Pengwaith yn Llanberis gan fod y cartref wedi dathlu ei ben-blwydd yn bump ar hugain oed. Agorwyd y cartref ar 23 Mehefin 1971, a'r Sul diwethaf, ar yr union ddyddiad, cynhaliwyd parti pen-blwydd yno. Gwahoddwyd cyfeillion y cartref i'r dathliad. Yn eu plith roedd amryw a fu'n gweithio yn y cartref ar wahanol gyfnodau yn ystod y pum mlynedd ar hugain. Roedd cynrychiolwyr hefyd o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd sy'n gyfrifol am y cartref. Roedd paratodau manwl wedi eu gwneud a chroeso cynnes yn aros pawb a alwodd heibio.

Trefnwyd digwyddiadau arbennig ar gyfer pob nos o'r wythnos ganlynol, ac roedd cryn edrych ymlaen ddechrau'r wythnos at groesawu'r diddanwyr lleol a chenedlaethol i'r cartref.

Mae Plas Pengwaith wedi darparu aelwyd gynnes llawn gofal i'r preswylwyr o'r cychwyn. Ac mae'n para felly yno. Yn ddiddorol iawn mae dwy o'r trigolion presennol, Mrs Mary Grace Williams a Mrs Margaret Alberta Roberts, yn gyn-aelodau o staff Plas Pengwaith. A thybed nad yw hynny yn un arwydd bychan o'r ymdeimlad o berthyn i deulu a geir yno, wrth i'r rhai a fu'n gofalu am eraill dderbyn gofal eu hunain maes o law.

Hir y parhau Plas Pengwaith a chartrefi tebyg iddo i gynnig gofal ac ymgeledd ac i ddarparu cartref cynnes i'w trigolion.



Mrs Mary Grace Williams a Mrs Margaret Alberta Roberts.



Mrs Mari Pritchard a Mrs Doris Griffith yn gwledda.

ECO'R WYDDFA

Rhif 225
GORFFENAF 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEDI 5
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, AWST 26
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU A	RHIF FFÔN
MEDI	MEDI 5	DINORWIG	—	—
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrau

Dathlu
Pen-blwydd
yr Urdd
yn 75 oed

Annwyl Gyfaill,

Diolch i chi am ganiatáu gofod i mi yn eich papur bro i wneud apêl ar ran Panel Dathlu Pen-blwydd 75 yr Urdd. Y flwyddyn nesaf byddwn yn dathlu 75 mlynedd ers sefydlu yr Urdd yn 1922 ac y mae nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu gan gynnwys Jambori yng Nghaerdydd, Cyngerdd y Dathlu yng Nghorwen a chyflwyniad gan ieuenctid y fro ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol y Bala.

Bwriad arall gennym yw cyflwyno bathodyn unigryw i bawb sy'n ymaelodi â'r Urdd yn ystod y flwyddyn nesaf. Cyfuniad o'r bathodyn gwreiddiol a'r presennol ydyw gyda '75' wedi ei osod yn ei ganol. Edrych ymlaen yw ein bwriad ond nid ydym am anghofio ein haelodau gwreiddiol ychwaith, a dyna fwriad y llythyr yma.

Os oes unrhyw un o'ch darllenwyr wedi bod yn aelod o'r Urdd yn ystod y flwyddyn gyntaf honno yna fe hoffai'r Urdd wybod er mwyn i ni allu cyflwyno bathodyn unigryw y dathlu iddynt. Felly, tybed fuasai aelodau cyntaf yr Urdd yn cysylltu â mi cyn diwedd yr hydref fel y gallwn drefnu achlysur i gyflwyno y bathodyn iddynt yn lleol neu yn genedlaethol.

Edrychaf ymlaen i gael gair ac i'w cyfarfod.

Yn ddiffuant,

ALWYN WILLIAMS

Swyddog Datblygu Cenedlaethol

Englyn English . . .

Rwy'n aelod o Gymdeithas Gymraeg Caerlŷr (Leicester) sy'n rhan o Gymdeithasau Cymraeg Dwyrain Canolbarth Lloegr gyda Derby, Loughborough a Nottingham.

Cynhaliwyd ein Noson Lawen flynyddol yn Derby nos Sadwrn, Mai 18. Yno soniodd ein Llywydd, Mr John Evans-Hughes, sy'n wreiddiol o Lanberis, am golofn 'Siambar Selwyn', rhifyn Mai o'r Eco. Englynion oedd cynnwys y golofn a chyfeiriodd ein Llywydd at yr englyn Saesneg i'r 'Bwci'. Meddylwyd y byddai'n syniad cyflwyno'r englyn i sylw'r gynulleidfa, ac wedi pendroni ychydig, lluniais y canlynol fel cyflwyniad i'r englyn:

I've been angling in England for an 'Englyn'!

I've been angling for an elongated length of time,

But it's giggling angling 'englyn' in England

'Cos long, lengthy linguistic 'englyns' never rhyme!

Cafodd hwn a'r englyn i'r 'Bwci' dderbyniad da, a phenderfynais ei anfon atoch o ran hwyl i'ch darllenwyr ac er mwyn rhoi tipyn o syrpreis i'm cyfaill John pan wêl yr Eco nesaf.

Cynhaliwyd Noson Lawen a Chymanfa Ganu yn flynyddol ym mhob un o'r trefi yn eu tro, ac maent yn werthfawr er diogelu'r iaith a'n diwylliant yn ein plith. Caiff yr aelodau bleser mawr drwyddynt. Down at ein gilydd unwaith y flwyddyn hefyd yng Nghymanfa Ganu Cymdeithas Cymrodorion Birmingham. Mae'r cyfan yn help i ddal cysylltiad â theulu, ffrindiau a threftadaeth mewn gwlad ddarth. Bu John Evans-Hughes yn noddwr hael i Gymdeithas Gymraeg Caerlŷr ers blyneddau, ac mae'n derbyn yr Eco yn reholaid.

Dymunaf y gorau i'ch papur i'r dyfodol.

Yn gywir,

DES THOMAS

5 Meadvale Road, Knighton, Caerlŷr

Canmol Athrawon

Annwyl Olygydd,

Roedd fy ngwraig a minnau yn falch o ddarllen teyrnged haeddiannol Mair Roberts (Davies i ni gynt) i Mr Robert Morris, M.A., o Ysgol (go iawn) Brynrefail.

Mae'n fraint cael ategu ei sylwadau ac ychwanegu un neu ddau ein hunain, o gofio fy mod i yn un o'i sêr yr adeg honno.

Mae llygaid y cof o hyd yn ei weld yn cyrraedd yr ysgol yn y bore ar yr hen feic mawr trwsgwl hwnnw, â'i gês wedi'i rwymo ar y tu ôl; yn wlyb fel dyfrgi weithiau, ar ôl ei daith ddigysgod o Lanberis, a chantel ei het i fyny dros ei dalcen.

Pan fyddai wedi cael boliad ar geisio treiddio rhyw bwynt gramadegol i ymennydd y rhai pendew, efallai y taflai ei galchyn i ben draw'r ystafell gan ddweud: 'Mae eisiau cyn a morthwyl efo chi'; a chamu i gyfeiriad y drws gan hanner diosg ei glogyn, 'Mi 'rydw i'n mynd i ganlyn wagan' (yn y chwarel).

Un arall sydd yn hawlio fy nyled yn bersonnol yw Miss Catherine Evans (Cymraeg): Cadi Bach am nad oedd hi fawr o faintioli. Roedd hi'n aros efo cyfnither fy mam yn Arfryn ar Allt Cêt. (Mae'r gelltydd yma i gyd yn perthyn i ferched!) Rhoddodd Miss Evans sylfaen gadarn a thrwyadl i ni yn y Gymraeg — yr unig ffordd i gael meistrolaeth ar unrhyw iaith. Mor gydwytbodol y gweithiodd gyda'i disgyblion nes y diffygiodd ei hegri nerfol, a chawsom y golled o fod heb ei harweiniad am gyfnod hir.

Cofiw'n am y ddau fel athrawon gorau y Dywysogaeth. Prawf o hynny yw fod eu cyn-ddisgyblion — yn cynnwys rhai nad ydynt wedi ysgrifennu eu sylwadau — yn gyndyn o adael eu henwau lithro i dir angof, a hynny ar ôl yn agos i drigain mlynedd.

Yn ffyddlon,

JOHN E. WILLIAMS

Allt Riwth, Llanrug.

Siop Trin Gwallt


SANDRA

Stryd Fawr
DEINIOLLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisïau arbennig i bensiynwyr

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI · DRYSAU
YSTAFELLOEDD HAUL



UPVC

Gadewch inni roi pris — am ddim
Ffoniwch: (01286) 871774
2 Tai Bwthyn
PENISARWAUN

Trên o Gaernarfon i Lanberis

Yn ddiweddar cyhoeddwyd llyfr arall o waith Bill Rear (gynt o'r Waunfawr) o'r wasg. Y tro hwn llyfr swmpus am y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis ac Afonwen a geir. Yn y llyfr, a gyhoeddir gan gwmni Foxlines, ceir nifer dda o luniau hynod o orsafoedd Caernarfon, Pontrug, Pontrhythallt, Cwm-y-glo ac, wrth gwrs, Llanberis. Ceir sawl golygfa ar y daith o'r dref, er enghraifft gwastadedd y tir ger Llwyncoed wedi gadael gorsaf Cwm-y-glo; a'r twnnel cyn adeiladu'r ffordd newydd.


Yn ychwanegol ceir manylion am y gorsaf oedd a hynny yn aml yn cynnwys gwybodaeth ddifyr nad oedd, o bosib, yn wybyddus i bawb ar y pryd. Does dim amheuaeth fod Bill Rear wedi

gwneud gwaith ymchwil manwl iawn ac mae'r lluniau — ymhell tros gant ohonynt — yn eithriadol o glir a difyr.

Mae rhan o'r llyfr wedi canolbwyntio ar y lein a redai o Gaernarfon i'r Afonwen a chynhwysir lluniau am wahanol orsafod y lein honno a fyddai o ddiddordeb i drigolion Dyffryn Nantlle a rhannau o Eifionydd.

Yn naturiol mae cynnwys y llyfr sy'n dwyn y teitl *Caernarfon and the Lines from Afonwen and Llanberis*, ac yn costio £9.95, yn dwyn atgofion melys iawn i'r rhai ohonom sydd yn cofio'r trên yn tramwyo'r ardal o Gaernarfon i Lanberis. Heb os mae'n ddogfen hanesyddol o orffennol ardal Eco'r Wyddfa.

Codi Arian



Ray Bower o Ddinorwig a Malcolm Pitts o Lanrug. Bu'r ddau yn gyfrifol am godi £300 i'r Gymdeithas Genedlaethol Osteoporosis drwy drefnu nofio noddedig ym Mhlas Menai. Roedd hyn yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu deng mlynedd o fodolaeth y gymdeithas sy'n brwydro yn erbyn clefyd esgyrn brau.

**CYMANFA
CERDD DANT
yng Nghapel Engedi
Caernarfon
nos Sul, 30 Mehefin
am 8 o'r gloch**

**CATHERINE WATKIN
GERAINT LLOYD OWEN
PARTI CYMERAU
MEIBION DWYFOR
WYTH O DELYNORION
MYNEDIAD / RHAGLEN: £2**

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen
Williams)**

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Lanrug

Croeso'r Amgueddfa

Derbyniodd gweithwyr Amgueddfa Lechi Cymru, cangen o Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, eu Tystysgrif Cynllun Croeso yn ddiweddar, wedi iddynt oll gwblhau'r cwrs Cynllun Croeso o fewn y safle.

Mae'r Amgueddfa Lechi wedi bod yn croesawu ymwelwyr ers ugain mlynedd a mwy, ond gyda gwerthiant y llynedd i Gwmni First Hydro — mae'r Amgueddfa Lechi wedi cymryd rôl prif leoliad Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru yng Ngogledd Cymru.

Un o ganlyniadau'r newid hwn oedd y cwrs Cynllun Croeso. Teimlwyd fod angen wythnos hyfforddi ar gyfer y gweithwyr, yn arbennig y gweithwyr newydd oedd angen dod yn gyfarwydd â'r diwydiant llechi ac i atgoffa'r gweddill am hanes y diwydiant a daeareg llechfaen; gwybodaeth angenrheidiol wrth ddellio â thoreth o ymholiadau'r ymwelwyr dros gyfnod yr haf.

Bu'r cwrs Cynllun Croeso yn ffordd wych o adnewyddu sgiliau'r gweithwyr er mwyn delio â chwsmeriaid, gan sicrhau bod yr

Ymddeoliad Arweinydd



Y mae arweinydd un o gorau prysuraf yr ardal wedi penderfynu ymddeol. Robin Jones oedd sefydlydd Cantorion Elidir, a bellach y mae wedi torri cysylltiad â'r côr hwyliog hwn. Bu Robin yn ymwneud â'r byd cerdd ers blyneddau, a hynny mewn sawl ardal ers ei ddyddiau cynnar yn Llanrwst. Mae'n credu'n gryf bod elfen gymdeithasol ym mywyd côr ac y dylai gyfrannu at fywyd ardal. Bydd hir gofio'r cydweithio a gafwyd rhwng y Cantorion â Chôr Plant Ysgol Gynradd Bethel. Ac mae'n siŵr y bydd yntau'n cofio aml stori am ei brofiadau fel 'dyn y gôt wen' yn arwain y côr. Un uchafbwynt oedd yr ymweliad â Tralee a chymryd rhan yn y cyngerdd Celtaidd answyddogol. Cofir hefyd am y perfformiadau o 'O Gaethiwed i Ryddid'. A phwy o'r gynulleidfa o fil yng Nghapel Engedi Caernarfon, all anghofio'r canu cynulleidfaol yn ystod y perfformiad o'r 'Croeshoeliad'?

Cafwyd cyfle mewn parti yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yn ddiweddar i ddiolch i Robin am ei waith. Cafwyd gair gan nifer o aelodau a ffrindiau'r côr. Cyflwynwyd darlun o Bont Llanrwst iddo ar ran y côr, ynghyd ag englynion o waith Richard Lloyd Jones wedi eu fframio.

Roedd Robin wrth y llyw am y tro olaf nos Sadwrn diwethaf mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor, er budd Cyngor yr Henoed y mae Robin yn weithiwr diwyd iddo.

Diolchwn iddo fel ardal am ei weledigaeth ac am yr her a osododd i'r sawl fydd yn ei ddilyn.

ROBIN

Hyder a ddoist i'n herwau — y meistar
Yn 'mestyn ei ddoniau.
Erwau'n ir, yr hyn a'r iau
Yn hadu drwy y nodau.

Hyder i deithio i Erin — yn gadwyn
Engedi, a'th werin;
Ffydd mewn bro i herio ffin —
Dy roddi yw dy ruddin.

R.L.I.J.



D. Dafydd Roberts a Mrs Rosina Worth

y mwelwyr yn cael y budd mwyaf posibl.

'Roeddem wedi bod yn meddwl cyflawni'r cwrs Cynllun Croeso ers amser maith, ond fod amser wedi bod yn brin,' esboniodd Julie Williams, Swyddog Hyrwyddo'r Amgueddfa. 'Roedd y cyfnod newydd hwn o fewn

yr Amgueddfa yn gyfle perffaith i gynnwys parwb o'r cychwyn cyntaf.

'Bu'r cwrs o fudd mawr i bawb ac mae wedi cynyddu ein hyder i allu delio â sefyllfaoedd dyddiol — boed yn bleserus neu'n amhleserus. Gobeithiwn y bydd y cyhoedd yn rhoi eu hyder ynom pan welant ein tystysgrif.'

O SIAMBAR SELWYN

Rydwi newydd orffen beirniadu yn agos i dri chant o gyfansoddiadau a ddaeth i law yn Eisteddfod Dyffryn Nantlle — 213 yn adran y plant ac 84 yn yr adran agored. Fe sefydlwyd yr Eisteddfod hon yn 1994 i wireddu breuddwyd y diweddar Hywel Jones, a da gweld ei bod yn llwyddiant ysgubol. Mae na wobrau hael yn cael eu cynnig yma ee *Coron yr Ifanc* — am gerdd neu ddarn o ryddiaeth, — cynigir coron a £50. Cynigir £100 a chadair yr Eisteddfod am gerdd gaeth neu rydd ar y testun *Craith* neu *Creithiau*. Ymgeisiodd 24 am Goron yr Ifanc ac 11leg am y Gadair.

* * *

Mae'n ddiddorol darllen hen destunau eisteddfod i sylwi fel mae pethau wedi newid dros y blynyddoedd.

Un o'r testunau eisteddfod mwya diddorol sy gen i yn fy nghasgliad yw testunau *Eisteddfod y Gadair Ddu 1917*, pan enillodd Hedd Wyn y Gadair.

Cynigiwyd y Gadair am Awdl heb fod dros 500 o linellau ar y testun Yr Arwr. Roedd na wobriannol o £10. Roedd na amod arbennig yn Adran Llên, sef — *Atelir £5 o'r wobwr yng nghystadlwyaeth y Gadair ar Goron oni bydd y buddugwr yn bresennol pan draddodir y feirniadaeth, oddieithr y profir i fodlonrwydd y pwyllgor fod ei absenoldeb yn anocheladwy*. Eironig onide, — o gofio hanes Steddffod y Gadair Ddu. Diddorol sylwi nad oedd bardd y Goron, sef *Wil Ifan*, chwaith ddim yn bresennol i gael ei goroni am ryw reswm. Ys gwn i â ataliwyd £5 o wobwr Wil Ifan?

O sôn am Wil Ifan, pan oedd o yn Archdderwydd yn Eisteddfod Genedlaethol Dolgellau 1949, bu bron iawn iddo gael yr un anrhydedd a gafodd John Gwilym y llynedd — sef coroni ei fab ei hun. Elwyn Evans (mab Wil Ifan) oedd yr ail am y Goron yn Nolgellau pan enillwyd hi gan John Eilian.

Awn yn ôl i Steddffod y Gadair Ddu. Fe'i cynhaliwyd ar *Fedi Sed, 6ed a'r 7fed 1917* — dau ddiwrnod o gystadlu, — dau gyngerdd yn yr hwyr, ac fe neilltuwyd y diwrnod olaf yn gyfangwbl i gynnal dwy Gymanfa Ganu.

Ond hyn sy'n ddiddorol. Petai'r Eisteddfod wedi ei chynnal yr wythnos gyntaf yn Awst, fel y mae yn awr, mae'n bur debyg y byddai Hedd Wyn wedi cael ei gadeirio. Fe'i lladdwyd o ar y *diwrnod ola o Orffennaf*, ac o gofio mai Lloyd George oedd y Prif Weinidog ar y pryd, ac am ei ddiddordeb yn yr Eisteddfod, mae'n eitha posib y byddai'r awdurdodau wedi trefnu i Hedd Wyn gael dod i'r Eisteddfod.

Mae 'Rhaglen y Dydd' yr Eisteddfod gen i hefyd ac mae'n hynod o ddiddorol. Ei phris oedd 6 cheiniog (7c drwy'r post), ac mae'n cynnwys 170 o dudalenau yn llawn o hysbysebion Saesneg. Mae na chydig o hysbysebion yn Gymraeg. Un fel hwn i 'Mellin's Food' ac o dano 'Bwyd Llefrith Ffres', a rhyw Mrs M. J. Wakins, 26 Hampton Rd, Bristol yn canmol — 'Nid oedd fy maban ond 3¼ pwys pan anwyd ef, ac ni wna'i ond ychydig gynnydd. Cynghorodd cyfeillles fi i roddi prawf ar "Mellin's Food", a gwnaeth gynnydd ar unwaith. Y mae Mellin's Food o'i gymysgu â llaeth ffres, y peth agosaf sy'n bod i ymborth naturiol. Dyna pam yr argymhellir Mellin's Food gan feddygon a nyrsus ymhob man. Anfonwch am sampl — rhad ac am ddim.'

Fedrwch chi feddwl am hysbys o'r fath yn rhaglen ein prifwyl eleni; Digon o waith.

Dyma un arall o gofio ei bod yn adeg rhyfel — 'Brand's Meat Lozenges (pure beef) — will nourish and sustain your soldier friend at the front — in tin boxes 1/-, 1/6 and 2/9d. Fyddai'r (pure beef) yn hysbys doeth heddiw dybed?

Hanner tudalen hefyd o hysbys i *Basic Slag a Manures* — 'Scotine' the cheapest Antipest Manure on the Market'. Meddylwch o ddifri — hysbysebu 'manure' yn Rhaglen y Steddffod.

Ond mae yma hefyd dudalen lawn o hysbys i'r *Brython* — papur wythnosol a gyhoeddwyd bob dydd iau a'i bris yn un geiniog. Llew Tegid yn dweud yn yr hysbyseb — 'Byddai yn well gennyf golli fy nghinio na cholli'r *Brython*, mae ei gerydd yn ddiwenwyn, ei ganmoliaeth yn ddiweniaith, a'i enwad a'i blaid yw Cenedl y Cymry'.

Diddorol yw sylw ar brisiau mynediad i'r Eisteddfod. Tocyn tymor — sef dau ddiwrnod o

Eisteddfod a dau gyngerdd £1.1.0. Tocyn undydd — sedd gadw i'r Eisteddfod yn unig — pum swllt. Gellid cael tocyn trydydd dosbarth am swllt.

Y pris am fynediad i'r Gymanfa ar y dydd Gwener oedd *chwe cheiniog*, ond os dymunech gael y fraint o eistedd ar y llwyfan yn y Gymanfa, fe gostiai *hanner coron* i chi.

Ydi mae pethau wedi newid — ym myd prisiau, hysbysebion a'r byd cystadleuol.

Roedd pymtheg wedi cystadlu am y Gadair yn 1917 — eleni ym Mro Dinefwr — dim ond chwech, ond mi fydd y bardd buddugol yn bresennol yno, siawns, os ceir teilyngdod.

Fferm a Thyddyn

Glywsoch chi am y ffermwyr hwnnw o Sir Benfro adeg y rhyfel a orfodwyd, gan y War Ag, i aredig un o'i gaeau pori gorau i hau yd. Rai misoedd yn ddiweddarach gofynnwyd iddo gan y swyddog heddlu oedd wedi ei orchymyn i wneud y gwaith, sut grop oedd o wedi'i gael. Yr ateb oedd: 'Mae o'n rhywbeth tebyg iawn i ti — yn goese i gyd a diawl o ddym yn ei ben e!'

Mae straeon o'r math, ynghyd ag atgofion, hen luniau, penillion, troeon trwstan, a dywediadau ffraeth a digri, bob amser yn werth eu cofnodi a'u cyflwyno i gynulleidfa ehangach gael mwynhad a difyrrwch ohonynt.

Dyma bwrpas y cylchgrawn *Fferm a Thyddyn*, sy'n cofnodi hynt a helynt y byd amaethyddol yng Nghymru y ganrif hon, yn bennaf ar ffurf pethau sy'n dal yng nghof pobl heddiw. Dyna ichi gyfnod pan welwyd newidiadau aruthrol ar ffermydd. Gwelwyd disodli'r ceffyl gan y tractor; daeth peiriant yn lle bôn braich; gyda dyfodiad y CAP gwelwyd prysuro ar ddiwedd ar ffermydd bychain a llwyr ddiwedd ar ffermio cymysg.

Golyga hyn fod gan yr amaethwyr hynaf yn ein plith brofiad eang iawn o dechnegau amaethyddol os ystyrier yr hen

a'r newydd. Bu rhai yn trin cryman, medi â phladur, ac eistedd ar sedd combein; yn aredig gyda'r wedd a'r aradr chwe cwys ddiweddaraf; yn trin y corddwr a'r cyfrifadur; ac yn cofio'r cant a mil o orchwylion amrywiol, pob un yn grefft, ar y fferm gymysg hunan-gynhaliol. Mae'r ehangder profiad hwn yn rhywbeth y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn rhyfeddu ato, a'r atgofion a'r wybodaeth yn drysorau hanesyddol sydd yn werth eu diogelu, oherwydd maent yn rhan o'n treftadaeth.

Byddai golygydd y cylchgrawn wrth ei fodd yn derbyn defnyddiau oddi wrth ddarlennwyr yr *Eco*. Mae'n rhyfeddol fel mae stori gan un yn codi ymateb gan rywun arall.

Ymddangosa'r cylchgrawn ddwywaith y flwyddyn — Galanmai a Chalangaef — ar ddyddiau'r hen ffeiriau pentymor gynt, ac yn costio £1 y rhifyn — sydd yn andros o fargen am gylchgrawn 48 tudalen.

Fe'i cewch o'ch siop lyfrau leol, neu unrhyw siop sy'n cymryd archebion; neu drwy'r post oddi wrth y golygydd, Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

'Un funud fach . . .'

CAMBYHAFIO

Wythnos ryfedd oedd hi. Un o wyrion Brenhines Lloegr yn cwffio ar ôl gêm rygbi yn yr Alban. Chwaraewr pêl-droed Lloegr yn creu difrod ar yr awyren a'u cludai adref o Hong Kong. Aelod Seneddol amlwg yn gorfod ymddiswyddo oherwydd straeon am odineb. Offeiriad amlwg yn cyfaddef iddo ef a'i wraig unwaith ffræo hyd at daro.

Roedd dau beth diddorol ynglŷn â'r digwyddiadau hyn. Y peth cyntaf oedd bod cymaint yn synnu bod pobl fel hyn yn gallu camymddwyn o gwbl. Fel petai statws ac enwogrwydd, neu gyfoeth a grym yn golygu bod pobl uwchlaw pechu a throddeddu.

Yr ail beth a'm trawodd oedd ymateb rhai o'r bobl hyn i'w trafferthion, yn arbennig felly y pêl-droedwyr.

'Collective responsibility' oedd eu gair mawr. Ardderchog meddech chi: pawb yn rhannu'r cyfrifoldeb am y difrod a wnaed, ac yn derbyn ei ran o'r bai. Na, dim cweith. Roedd pawb ar fai . . . nes bod y bys yn pwyntio at rywun yn benodol. A dyna'r naill ar ôl y llall yn rhedeg at ei dwrnai i wadu unrhyw ran yn yr helynt.

Chlywais i mo'r offeiriad na'i wraig yn defnyddio'r ymadrodd *collective responsibility*, ond rhywbeth felly oedd ganddynt hwythau dan sylw. Roeddent yn rhannu'r cyfrifoldeb am y problemau a gawsant ar un cyfnod. Ond y gwahaniaeth rhyngddynt â'r pêl-droedwyr oedd eu bod hwy ill dau yn cyfaddef eu bod ar fai. Roeddent yn cydnabod eu methiannau.

Mae angen mwy na chyfoeth ac enwogrwydd i fyw bywyd da. Mae angen gras Duw ar gyfer hynny. Ac mae arnom angen y gras hwnnw o'r newydd bob dydd.

Does neb ohonom yn berffaith. Mae'r Cristion yn fwy ymwybodol o hynny na neb. Ond mae'n gwybod hefyd ei fod yn credu yn y Duw sy'n adnabod holl wendidau ac anghenion ei blant. Un o freintiau mwyaf y Cristion yw gwybod y gall gydnabod ei feiau i'w Dad Nefol. A gwneud hynny gan gredu bod y Tad yn maddau pob bai i'r edifeiriol.

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Newyddion o'r Ysgol: Unwaith eto rydym am longyfarch nain arall. Daeth Mrs Rhian Jones, yr ofalwraig, yn nain am y chweched tro. Dymuniadau da i Medi a Gareth Jones ar enedigaeth John Wyn. Mae'n siŵr fod Kerry a Dewi wrth eu bodd gyda'u brawd bach newydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Delyth ac Iwan Jones, Tremeilian, Brynrefail, ar enedigaeth eu mab bach, sef brawd i Llion Bryn ac Aaron.

Ydi, ar ôl chwe mis, mae Keith Williams yn ôl yn yr ysgol. Roedd pawb yn hynod o falch o'i weld ac fe gafodd groeso brenhinol gyda charped coch (o bapur crêp). Mwynhaodd ef a'i rieni gyngerdd gan y babanod a chacennau siocled a phaned i ddilyn. Mae'n braf cael Bl. 6 yn gyflawn unwaith eto am yr ychydig sy'n weddill o'r flwyddyn ysgol. Dymunwn y gorau i Amy, Carys, Karrah, Kim, Keith a Michael fydd yn gadael am Ysgol Brynrefail. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yno.

Treuliodd Bl. 3 a 4 ddiwrnod braf ar y traeth yn Ninas Dinlle yn astudio

bywyd y glannau. Daethant a chasgliad rhyfeddol o gregyn, cerrig a gwymon yn ôl i'r ysgol. Carem ddiolch i Miss Nia Hughes, myfyrwraig o Goleg y Normal, am ei hymroddiad arbennig i'r plant tra bu yma ar ei hymarfer dysgu. Dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol.

Bu Miss Emma Jones o Ysgol Brynrefail ar brofiad gwaith gyda Mrs Orritt yn y gegin fel rhan o'i chwrs Arlwyfaeth.

Llongyfarchiadau i Mrs Diana Pritchard, Llanberis, ac Arwyn Jones o Gwm-y-glo ar ennill gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Mai.

Cafodd plant Bl. 6 fwynhad mawr yn gweld 'Ffeirio' — perfformiad gan Gwmni'r Frân Wen yn Ysgol Brynrefail.

Bu dau dîm o'r pentref yng nghystadleuaeth pêl-droed Tlws yr Eco. Diolch o galon i Mr Nigel Griffith, Llanrug, am hyfforddi'r bechgyn a'r genethod ar gyfer y noson.

Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn y Gala Nofio i

Ysgolion o dan 100 o blant. Wythfed oedd y tim eleni.

Braf oedd cael croesawu Cwmni Drama Llanberis i'r ysgol i gyflwyno dwy gomedi. Cafwyd noson hwyliog iawn a phawb wedi mwynhau'r cyflwyniadau. Trosglwyddodd y cwmni holl elw'r noson i Gronfa Keith. Diolch o galon i Mr Bert Parry am drefnu'r noson.

Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol wedi trefnu Sioe Ffasiynau gyda Orchid Fashions ar nos lau, Gorffennaf 4, am 7 o'r gloch. Bydd tocynnau ar werth am £1.50 gan gynnwys paned a bisgedi, gyda'r elw yn mynd i gronfa'r ysgol. Dewch i weld y plant, y rhieni a rhai o'r staff yn modelu'r dillad!

Diolch i bawb yn y pentref am gefnogi gweithgareddau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Llongyfarchiadau i Medi a Gareth, Dôl Afon, ar enedigaeth mab, brawd bach i Kerry a Dewi.

Diolch: Dymuna Carys, Bryn, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21 oed.

Dymuniadau Da: Dyna a ddymunwn i blant y pentref sydd yn sefyll arholiadau y tymor hwn yn yr ysgol neu'r coleg.

Ail gynnu'r tân

Mae traddodiad dosbarthiadau a darlithoedd Mudiad Addysg y Gweithwyr (WEA) yn parhau yn gryf mewn ambell fan ym mro'r Eco. Y mae'r mudiad yn cynnig amrywiaeth diddorol o bynciau gan roi cyfle i weithio, trafod a gwrando. Ond mewn rhai pentrefi pallodd y traddodiad ac mae'r mudiad yn awyddus i ail gynnu'r tân ar yr 'hen aelwydydd' hyn. Un pentref dan ystyriaeth yw Bethel. Erbyn heddiw Bethel yw un o bentrefi mwyaf yr ardal gyda phoblogaeth o wahanol oedrannau a chefnidiroedd. Yn y blynyddoedd a fu bu'r WEA yn gryf yno. Mae'r trefnydd rhanbarthol, Ifor Baines, yn awyddus i 'ail gartrefu' yn y pentref gyda'r bwriad, os bydd cefnogaeth, yw cynnal sesiwn 10 wythnos (2 awr yr un) ar 'drin geiriau'. Mae hyn yn arwain at drafod y cynganeddion ac, efallai, ddiweddu gyda'r wefr o 'sgwennu eich englyn cyntaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf cynhaliwyd cwrs cyffelyb yng Nghapel Bethania, Y Felinheli. Denwyd criw o wahanol oedrannau a chafwyd amser hwyliog iawn dan arweiniad Ifor Baines. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol — daw'r wefr o gyd-ddysgu, cyd-rannu a chyd-fwynhau. Y bwriad yw cynnal y cyfarfodydd yn ystod misoedd y gaeaf. Mae croeso i bawb o bentrefi cyfagos i ymuno â'r dosbarth. Os oes ymateb ffafriol yna tefnir man cyfarfod a nosweithiau sy'n gyfleus i'r mwyafrif.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Richard Llwyd Jones, 5 Y Ddôl, Bethel (01248) 670115.



DRAENOG



Cafodd gwraig o Lanberis ei deffro yn gynnar un bore gan sŵn y gath: y greadures yn sownd ar ben corn y tŷ. Bu ond y dim i'r wraig ffonio'i gŵr yn Y Fali i ofyn iddo anfon hofrennydd i achub pws!

Wavell Roberts

CIGYDD

London House LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partion, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

CHWILOTA

YMDDIHEURIO —

AC HEL ESGUSODION



Yng Nghyfarfod Blynyddol yr *Eco* y sylweddolais fod deunydd y mis hwn i fod yng Ngwasg Gwynedd ers tridiau, ac y byddai'n räs wyllt arna'i yn ceisio cael rhyw fath o drefn ar y golofn y mis hwn. Dyna'r ymddiheuriad — a'r esgus. Ond o leiaf, roeddwn i yn y Cyfarfod Blynyddol: y rhai sydd â chlustiau i wrando . . . neu yn yr achos hwn, y rhai sydd â llygaid i ddarllen . . .!

TŶ DANIEL

Rai misoedd yn ôl cefais gais o'r Waunfawr ynglŷn â thŷ ar yr allt o'r Groeslon i Gefn Du a elwid ar lafar yn 'Tŷ Daniel'. Daeth rhywfaint o wybodaeth i law gan Glyn Owen. Mae'n tybio mai Pen-y-ffridd oedd enw cywir y tŷ, ac mai yno y magwyd teulu mawr ar ddechrau'r ganrif hon. Mae'n enwi rhai o'r hen deulu, sef Owen Thomas, Dinas, Waunfawr; Tom, brawd iddo a adeth i'r Fali, Môn i fyw, ond a fu'n gweithio yn Chwarel Dinorwig, ac yn teithio yno ar foto-beic, gan aros yn y Barics yn ystod yr wythnos. Robin Thomas oedd brawd arall, a aeth i fyw i St. Helens. Lladdwyd un arall o'r brodyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Glyn Owen yn cofio Owen Thomas yn adrodd fel y byddent yn torri mawn yn y Waen Bant ac yn ei gario adref i Ben-y-ffridd i'w roi ar y tân.

Nepell o Ben-y-ffridd roedd cwpwl o'r enw Guto a Mari Jones yn byw yn y Tŷ Pella. Gelwid y wraig yn Mari Jones Cefn gan mai o'r Cefn, Bontnewydd yr hanai. Roedd hi bob amser yn cerdded yn ei chwman ac yn ôl yr hanes roedd wedi gwyro felly oherwydd iddi fod yn gweithio'n cario pwysau gyda iau pan yn ifanc.

HEN GYNHEBRYNGAU

Elwyn Jones, Dunstable (gynt o Lanrug) sy'n ychwanegu at ein gwybodaeth ynglŷn â hen arferion claddu a throeon trwstan yn y gorffennol. Mae'n cofio mai John Edwards, Fron Chwith, Llanrug, fyddai'r saer eirch, ond byddid yn benthyca 'bearers' ar gyfer ambell gynhebrwng, sef ei frawd Owen Edwards, Rhos Ddu, a pherthnasau eraill i deulu Rhos Ddu, sef William Jones (Parc Isaf yn ddiweddarach) a Thomas Jones (tad Elwyn Jones). Er mai chwarelwyr oedd y rhain byddent yn colli stem o'r chwarel i helpu'r ymgymwrwr ar ddiwrnod angladd.

Adroddai William Jones yr hanes am un cynhebrwng go anghyffedin yn Llanrug. Roedd gwraid anarferol o fawr (coes fiw dweud 'tew') wedi marw — 'Roedd hi'n gymaint rownd ei chanol ag oedd hi o uchder, ac wedi cael eistedd mewn cadair arbennig yng Nghapel Llanrug gydol ei hoes

am na allai fynd i mewn i unrhyw un o'r seti!' John Edwards gafodd y gwaith o lunio arch iddi, ond ar ôl mesur a gwneud yr arch, doedd dim posib ei chael i mewn i dŷ'r ymadawedig. Bu'n rhaid tynnu'r arch oddi wrth ei gilydd a'i hail-osod yn y tŷ. Y broblem nesaf oedd sut i gael yr arch (a'r corff) allan o'r tŷ ar ddiwrnod yr angladd. Penderfynwyd cael y cynorthwyrwyr arferol adref o'r chwarel yn gynt nag arfer, a'u cael i'r tŷ cyn amser y cynhebrwng a thynnu ffenestr gyfan o'r wall! Daeth yr arch allan trwy wagle'r ffenest yn syth i'r hers wrth y wal. Roedd yn haws cael yr hers i'w safle gan mai caseg Rhosddu oedd yn ei thynnu. Er hynny, roedd pryder garw yn y fynwent, oherwydd ofnid fod yr ymadawedig mor drwm fel na fyddai'r arch yn dal y pwysau i'w chario o'r hers i'r bedd. Ond fu dim anffawd arall, a chladdwyd y ddiweddar wraig yn barchus. Yn ddiweddarach yn y pnawn bu'n rhaid i'r sael ailymweld â thŷ'r ddiweddar wraig — y tro hwn i ailosod y ffenest yn ôl yn y wal!

BRODYR CWM-Y-GLO

Mae Mr Llew Hughes, Hyfrydle, Cwm-y-glo, yn amau ai llun o frodyr Cwm-y-glo a anfonwyd i'r *Eco* gan Guto Roberts, ond mae'n sicr fod o leiaf un o hogia'r Cwm yn y llun, sef ei frawd Tom (trydydd o'r dde). Cred Mr Hughes mai llun dosbarth WEA ar ymweliad â Choleg Harlech ydyw, a hynny yn nyddiau cynnar y mudiad pan oedd Silyn yn athro-drefnydd. Gallai'r dynion yn y llun fod o bentrefi eraill y fro neu o ardaloedd megis Dyffryn Ogwen neu Ddyffryn Nantlle. Oes unrhyw un all gadarnhau hynny?

CYMDEITHAS FFYNHONNAU CYMRU

Sefydlwyd y gymdeithas newydd hon ym Mhlas Tan y Bwlch ar 15 Mehefin. Y swyddogion fydd Dewi Lewis, Clydach (cadeirydd), Iorwerth Hughes, Llanelwy (is-gadeirydd), Eirlys Gruffydd (ysgrifennydd), a'i gŵr, Ken Griffith (trysorydd). Mae'n bosibl ymaelodi am £3 y flwyddyn (teulu £5; myfyrwyr, henoed a'r di-waith £2).



Bwriedir cyhoeddi cylchlythyr — *Llygad y Ffynnon* — ddwywaith y flwyddyn. I unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno cysylltwch â'r ysgrifennydd yn Argel, 4 Parc Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint.

DIWEDD Y GÂN YW'R GEINIOG

Gadawaf i Margaret Roberts, Caernarfon, gau pen y mwddwl am yr haf, gyda'i hatgofion am gyfnod sydd yn ddieithr iawn i lawer o blant a phobl ifainc heddiw, ond heb fod mor bell yn ôl i'r mwyafrif o ddarllenwyr yr *Eco*, sef cyfnod 'yr hen bres'. Dyma sydd ganddi i'w ddweud am eirfa sy'n debygol o ddiplannu o'n hiaith o fewn un neu ddwy genhedlaeth:

Ar ôl gwledda ar gawl blasus yn yr awyr agored yn Luxembourg diddorol oedd sylwi fod y bechgyn ieuainc a weinai arnom yn gallu trin arian sawl gwlad gyfagos heb drafferth o gwbl. Gresyn yn wir na fyddai newid i'r arian 'Euro' mae llawer gennym i'w golli. Colli'r hwyl wrth weithio pethau allan pan ar ein gwyliau, colli geirfa a cholli allan yn ariannol.

Digwyddodd hyn yn 1971. Cofiaf tad i bump o blant yn dweud fod trip Ysgol Sul i'r Rhyll wedi costio ffortiwn iddo ar ôl y newid. O dan yr hen drefn rhoddodd ddau swllt yr un i'r plant. Cawsant 24 ceiniog neu 48 dimai yr un i geisio ennill arian ar y peiriannau — bingo bach — yn y Marine Lake. Yn 1971, deg ceiniog a gawsant am ddeuswllt, a deg tro ar y peiriant. Buan iawn y diflannodd y pres i grombil y peiriannau a phocedi'r perchnogion.

Dywed rhai ei bod yn llawer haws gwneud symiau yn yr ysgol erbyn hyn, ond defnyddio cyfrifiannell wna llawer o blant y dyddiau hyn. Cofiaf yn dda fel roedd athrawon ysgol Tan-y-coed yn ein helpu i ddyysgu'r gwahanol dablau — 'deuddeg ceiniog mewn swllt; cant dau ddeg ceiniog mewn chweugain; dau gant pedwar deg ceiniog mewn punt; wyth hanner coron mewn punt,' ac yn y blaen.

Côf da am fy athrawes gyntaf, Miss Jennie Williams, Dinorwig, bob amser yn gwisgo dillad lliwgar a'i gwallt du mor daclus. Rhoddodd ddechreuad gwyh i blant Tan-y-coed a mawr yw fy nioch iddi. Pan symudodd i Ddeiniolen daeth Miss Annie May Williams, Brynrefail, yn athrawes ar y babanod; a ninnau'n symud at Cassie Jones (Owen), Llanberis, a Mr Emyr Thomas, Penisarwaun, y prifathro. Buom yn

ffodus o gael dysgu mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg er nad dyna'r arferiad yn y 40au.

Yr athrawon mathemateg yn Ysgol Brynrefail, a ddilynodd y gwaith da yn yr ysgol gynradd, oedd Mr Bleddyn Hughes, Nant Peris; Mr A. McCullum; yr annwyl Mr W. Vaughan Jones, a blwyddyn o waith caled yng ngofal Mr David Jones. Rwy'n siŵr bod canlyniadau lefel-O mathemateg Ysgol Brynrefail ymhlith y gorau drwy'r wlad gyda'r athrawon hyn. Trist yw meddwl mai fy athrawes gyntaf, Jennie Williams, a'r olaf, David Jones, yw'r unig ddau sy'n fyw erbyn hyn.

Er fod ffardding, grôt, fflorin a choron wedi peidio bod yn fy nyddiau ysgol i, roeddem yn gwneud symiau yn cynnwys y rhain. Grôt oedd cinio ysgol a grôt oedd ffêr y bws o Gaernarfon i Lanrug. Roedd tair ceiniog wen, tair ceiniog goch, sofrén aur ac arian gwynion yn eiriau a ddefnyddiemi. Erbyn hyn 'three-p' a 'twenty-p' a glywir. Collwyd yr eirfa unigryw am 'fags' yn nhref Caernarfon ar ôl desimaleiddio. Roedd niwc, hog a sei ar lafar hyd hynny. Tybed a oedd y gair 'sei' yma ers dyddiau'r Rhufeiniaid, gan mai 'sei' yw'r gair Eidalaidd am chwech? Cafodd ei arfer am ganrifoedd ond bellach wedi mynd angof. Defnyddir y gair Cymaeg 'dimai' o hyd yn yr Unol Daleithiau am eu darn arian 'dime', diolch i'r ymfudwyr o Gymru a ymgartrefodd yno.

Wrth fynd adref o ysgol Tan-y-coed arferai criw ohonom fynd drwy Stablau weithiau i roi ceiniog ar gledrau lein y chwarel. Ar ôl i'r trên fynd heibio disgleiriair'r geiniog fel sofrén aur. Mae'n siŵr fod Hazel a Haydn Lewis; Dilys, Len a Les; Dennis a Phyllis, Gors; Tim, Gwen, Eric ac Emlyn Baylis; a Chaterine, Stablau, yn cofio hyn yn da.

Er nad oes gennym arian Cymreig mae gennym doreth o ddywediadau a chaneuon gwerth eu cadw. Gobeithio na chollwn yr eirfa yma. Dyma rai ohonynt: *Hen feic peniffardding fy nhaid; Robin goch ar ben y rhiniog, yn gofyn tamaid heb un geiniog; Mi wariais gant o syltau / Do, fil o chwecheiniogau / I yfed cwrw a gwin at Gwen / A'i cholli ar ben y siwrnai; Hwy a gawsant bob un geiniog (dameg Y Winllan); Pen punt a cynffon ddimai; Dim dimai goch y delyn; Cybudd a wna geiniog yn swllt; Ni wneid byth rôr yn chwecheiniog; Diwedd y gân yw'r geiniog.*

Mwynhewch eich gwyliau haf a'r pendroni difyr gyda'r arian tramor. Meddylwch am fwy o ddywediadau a chaneuon yn ymwneud ag arian tra'n torheulo. Hwyrach y medrwn gael casgliad diddorol.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Llongyfarchiadau: Ddydd Iau, Mai 23ain, mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Salem, Porthmadog, cyflwynwyd Medalau a Thystysgrifau Thomas Gee am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Un o'r rhai a dderbyniodd dystysgrif yw Mrs Elisabeth M. Williams, Tegfryn, Ffordd Deiniol.

Mae wedi dal yn aelod o'r Ysgol Sul ers pan gychwynnodd yn blentyn yng Nghapel Ysgoldy, Clwt-y-bont, a hi yw athrawes y dosbarth oedolion yn Ysgol Sul Unedig Deiniolen. Ein llongyfarchiadau gwresog iddi, ac eiddunwn iechyd iddi i fedru dal i fynychu'r Ysgol Sul am flynyddoedd eto.

Diolch: Dymuna Joyce Jones, 10 Porth y Gogledd, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu cardiau, blodau, arian, danteithion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn aros ac ar ôl dod adref o ysbytai Walton a Clatterbridge, Lerpwl, yn ddiweddar. Diolch arbennig iawn i Eurwyn, Donna, Della a Derwyn. Diolch yn fawr.

Dymuniadau da i Mr Glyn Roberts fydd yn gadael ei swydd bresennol fel Pennaeth Ysgol Gwaun Gynfi ar ddiwedd y tymor hwn ac yn ymgymryd â swydd Pennaeth Ysgol y Graig, Llangefni, ym mis Medi. Bydd yn gadael Ysgol Gwaun Gynfi ar ôl cyfnod o chwe mlynedd fel Pennaeth medrus a brwdfrydig sydd wedi gosod yr Ysgol ar seiliau cadarn iawn ar gyfer y dyfodol. Wrth ddymuno yn dda iddo yn ei swydd newydd croesawn yr un mor wresog

Mr Gareth Lloyd Parry fel Pennaeth newydd yr Ysgol o fis Medi ymlaen. **Seindorf:** Cynhaliwyd Cyngerdd Blyneddol y Seindorf yn Ysgol Llanrug yn ystod mis Mai. Cymerwyd rhan gan Glyn Williams, Trebor Evans, Annette Bryn Parri a Band Jazz yr ysgol ynghyd â'r Seindorf. Roedd y noson dan ofal John Wyn Roberts, Bae Colwyn.

Dymuna'r swyddogion ddiolch i bawb am eu cyfraniad tuag at lwyddiant y Cyngerdd gyda diolch arbennig i Tim a Jackie Jones, Garej Beran, am noddi'r Cyngerdd ac i leuan Williams am roddi bws yn rhad ac am ddim. Diolch hefyd i Nia a Gethin am blygu'r rhaglenni.

Llongyfarchiadau i Jennie Lyn Morris ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Maelor. Hefyd i Jennie, Bethan Williams, Urien Sion Huws, Gethin Williams ac Arwel Williams, aelodau o fand jazz Ysgol Brynrefail a ddaeth yn drydydd yn yr eisteddfod.

Gradd: Llongyfarchiadau i Sa'ad Mansoor, Tŷ Capel, Libanus, ar ennill gradd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn peirianeg electroneg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Bydd yn parhau â'i astudiaethau ar gyfer gradd bellach.

Llongyfarchiadau: Roedd Deiniolen ar y map unwaith eto pan gipiodd Jennie Lyn Morris y wobwr gyntaf ar yr unawd pres 12-15 oed yn Eisteddfod Bro Maelor yn Wrecsam. Mae Jennie hefyd wedi ennill gwobr Cerddor Ifanc y Flwyddyn cylch Caernarfon dan 15 oed, a oedd yn



CYNFI SILVER BAND (Seindorf Deiniolen)

Pa flwyddyn tybed? Mae'r llun wedi'i dynnu y tu allan i gapel Disgwylfa, sydd bellach wedi ei ddymchwel.

cael ei noddi gan Glwb Rotari Caernarfon yn ddiweddar. Da iawn chdi Jennie a phob lwc iti i'r dyfodol. **Diolch:** Dymuna Jennie Lyn, Cartref, Rhos Cynfi, ddiolch i'w theulu,

ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian a'r galwadau ffôn a dderbyniodd i'w llongyfarch ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Bro Maelor. Diolch yn fawr i bawb.



Yn ôl i'r Ardd gan Wraig Tŷ

Pwt bach o ardd sydd gen i ar hyn o bryd. Mae'r hen ardd lysiau yn gae erbyn hyn ond mae ambell goeden gwsberis a chyrains duon yn dal yno, a chaf ryw faint o ffrwythau o dro i dro.

Oni bai bod hogia Antur Waunfawr yn torri'r glaswellt byddai'n rhaid i mi brynu buwch, ceffyl neu ddafad neu ddwy i'w bori.

Ond mae gen i lwyni blodau hardd iawn. Ac er bod y leilloc gwyn a phiws a'i arogl bendigedig bron â darford erbyn hyn, rwy'n ceisio cael llwyni blodau i roi lliw i'r ardd drwy'r haf. Mae coeden fach o'r enw *carefiloris* wrth y tŷ. Ar wahân i'r tri-lliw-ar-ddeg hon fydd yr olaf i flodeuo cyn daw'r barrug ddiwedd yr hydref. Mae llawer wedi gofyn am damaid ohoni ac er i mi ddilyn cyfarwyddyd llawer

garddwr proffesiynol ni lwyddais i gael tamaid. Mae'n bosib mai rhy fusneslyd ydw i, yn rhuthro i weld os yw'r tamaid wedi magu gwraidd. Mae'r tri-lliw-ar-ddeg yn hawdd i'w drin, dim ond i chi gofio ei dorri ar yr amser iawn tua mis Medi. Bydd llawer yn gofyn i mi am damaid o'r un glas, ond mae'r lliw yn dibynnu'n hollol ar y pridd yn ôl y sôn.

Cefais lwyn rhosyn heb fod yn annhebyg i rosynau gwyllt ac mae'n llawn arogl hyfryd. Ei fantais fawr yw nad yw'n cael ei daro gan un o elynion mwya unrhyw arddwr — y smotyn du. Mae'n werth ei dyfu er nad yw'n un o'r rhosynau mwyaf aristocrataidd.

Hwyl ar y garddio a chofiwch wyllo'r rhaglen 'Clwb Garddio' ar S4C.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Llanberis yn dathlu Ras yr Wyddfa

Fe fydd rhedwyr mynydd penigamp o bedwar ban byd yn cyrraedd Llanberis y mis nesaf i gofnodi uchafbwynt yn hanes Ras Ryng-wladol yr Wyddfa, a bydd y pentref yn dathlu mewn steil er mwyn gwneud y digwyddiad chwaraeon mawreddog yn un i'w gofio.

Ar y noson cyn y ras (dydd Gwener, 12 Gorffennaf) fe fydd plant ysgol lleol yn arwain gorymdaith o athletwyr rhyng-wladol drwy Llanberis, ac fe'i dilynir gan seremoni agoriadol swyddogol yn Oriel Eryri. Fe drefnir cerddoriaeth o naws rhyng-wladol mewn lleoliadau gwahanol drwy'r pentref, ac ar ddiwrnod y ras fe fydd amrywiaeth o atyniadau, yn cynnwys ffair grefftiau ac arddangosfa gymnasteg.

Bydd y canwr byd-enwog **Bryn Terfel** a'r gantores ryng-wladol **Susan Bullock** yn westai gwadd a byddant yn ymddangos ar ddiwrnod y ras, a'r nos Wener fe fydd Tim Ward a Rhian Owen yn perfformio i'r gwesteion gwadd a'r athletwyr a fydd yn y Seremoni Agoriadol.

Mae Ras yr Wyddfa yn dathlu ei phen-blwydd yn 21ain eleni ac am y tro cyntaf y prif noddwyr yw Edison Mission Energy, cwmni gwreiddiol First Hydro, gweithredwyr gorsafoedd ynni Dinorwig a Ffestiniog.

Ceir cefnogaeth i'r digwyddiad hefyd gan y Sefydliad i Chwaraeon a'r Celfyddydau, Cyngor Cymuned Llanberis, Cyngor Gwynedd, CYNAD, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chwmni Rheilffordd yr Wyddfa. Mae Bwrdd Twristiaeth Cymru a Reebok hefyd yn cefnogi'r hyn a fydd yn un o brif ddigwyddiadau 1996 yn y calendr chwaraeon.

Yn ychwanegol at Ras Ryng-wladol yr Wyddfa mae'r trefnwyr hefyd yn cynnal y Tlws Ewropeaidd enwog am redeg mynydd, sy'n cael ei noddi gan First Hydro ac sy'n gyfyngedig i redwyr rhyng-wladol gorau Erwop. Bydd Bryn Terfel yn dechrau'r ras y Tlws Ewropeaidd i Ddynion ac fe fydd Susan Bullock yn dechrau pencampwriaeth y merched.

Cydnabyddir Ras yr Wyddfa fel un o'r rhai anoddaf mewn rhedeg mynydd rhyng-wladol. Gan ddechrau a gorffen yn Llanberis mae'r rhedwyr yn dringo cwrs 10 milltir i fyny at gopa 3,560 troedfedd y Wyddfa ac yn dychwelyd ar yr un llwybr.

Nid yw'r amser record o awr, 2 funud a 29 eiliad wedi cael ei fygwth ers dros ddeng mlynedd a gobeithir yn fawr y bydd yr athletwyr cyntaf yn y ras ar gyfer y Tlws Ewropeaidd nid yn unig yn torri'r record ond hefyd yn gallu rhedeg y cwrs men llai nag awr.

Bydd oddeutu 60 o ddynion a 40 o ferched yn cystadlu yn y rasmus ar gyfer y Tlws Ewropeaidd (a gynhaliwyd yn Ffrainc y llynedd). Llwyddodd Cymru i gael eu dewis i gynnal pencampwriaethau 1996 ar waethaf cystadlu brwd gan Yr Eidal. Unwaith yn rhagor fe gyfyngir y nifer o redwyr ar gyfer Ras yr Wyddfa i 450 am resymau diogelwch ac amgylcheddol.

Mark Kinch (Prydain) gydag amser o awr, 2 funud 58 eiliad, oedd enillydd y llynedd; a Trish Sloane (Iwerddon) oedd y ferch gyntaf gydag amser o 1:22:33. Torrodd yr Eidalwr Gianni Vella y record i rai profiadol (veteran) o bum munud a daeth yn chweched yn y ras gyfan.

Fel rhan o'r digwyddiadau eleni cyflwynir Tlws ar gyfer y cyflawniad personol gorau yn Ras yr Wyddfa. Dywedodd Nigel Petrie, rheolwr-gyfarwyddwr First Hydro: 'Mae eleni yn flwyddyn arbennig i Ras yr Wyddfa. Mae'n gymwys iawn fod Llanberis wedi cael ei ddewis i gynnal y Pencampwriaethau Ewropeaidd a rhaid rhoi pob clod i'r trefnwyr lleol, Ken Jones, sydd wedi gweld y ras yn datblygu dros yr un mlynedd ar hugain o ras leol i ddigwyddiad sy'n cael ei ganmol yn rhyng-wladol.'



'Mae'n rhaid cael cyhyrau cryfion a dyfalbarhad i redeg i fyny ac i lawr llethrau creigiog Eryri ac eleni cawn weld y goreuon yn gwneud hynny. Credwn fod pob un sy'n cymryd rhan yn haeddu pob clod ac fe fyddwn yn cyflwyno gwobr i'r rhedwr gyda'r hanes mwyaf haeddiannol i'w adrodd.'

Cynhelir gorymdaith yr athletwyr am 18.00 yn Llanberis ar ddydd Gwener, 12 Gorffennaf. Bydd Ras yr Wyddfa Edison Mission yn dechrau am 11.00 ddydd Sadwrn, 13 Gorffennaf.

Bydd y Pencampwriaethau Ewropeaidd yn dilyn am — 13.00: Ras y Merched; 14.30: Ras y Dynion. Fe gyflwynir y Tlws Ewropeaidd am 16.30 yn Oriel Eryri.

HANES Y RAS

Cynhaliwyd y ras am y tro cyntaf ym 1976 pan oedd Gorsaf Ynni Dinorwig wrthi yn cael ei hadeiladu ac fe'i noddwyd gan un o'r prif gontractwyr. Roedd yn ddechrau cymhedrol gyda 87 o redwyr, ond ymhen tair blynedd yn ddiweddarach, ym 1979, roedd wedi ennill statws rhyng-wladol. Bellach y ras hon yw'r hynaf o'i math ac fe'i hystyrir yn un o brif

rasus mynydd Ewrop.

Ar hyn o bryd awr, 2 funud a 29 eiliad yw'r record a'r her fwyaf sy'n wynebu'r rhedwyr yw torri'r targed o awr. Saif record y merched ar awr, 12 munud, 48 eiliad.

Mae'r ras yn ddigwyddiad hollol amaturaidd ac fe'i rhedir o dan reolau Athletau Cymreig Amaturaidd. Mae tri categori — merched, Rhyng-wladol/Agored a Plant, sy'n rhedeg cwrs llai. Ceir gormod o geisiadau i'r ras yn flynyddol ac fe'i cyfyngir i uchafswm o 450 oherwydd rhesymau diogelwch ac amgylcheddol.

Mae rhedeg mynydd yn un o'r chwaraeon annibynnol hynny sy'n gofyn am ymarfer caled ym mhob tywydd gan unigolion brwdfrydig ac mae Ras yr Wyddfa yn denu cystadleuwyr o safon uchel dros y byd gan gynnwys rhedwyr Prydeinig penigamp. Y mae hefyd yn denu miloedd o wylwyr, ond fe bery Ras yr Wyddfa yn ddigwyddiad a drefnir gan drigolion lleol ac mae'n uchafbwynt i benwythnos o gyfeillgarwch rhyng-wladol.

Dymuniadau gorau i Ken Jones, trefnydd y Ras sydd wedi cael llawdriniaeth yn Lerpwl. Brysia wella, Ken.

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI

CABS LLANRUG

Ffôn: (01286)

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos



2 Iain RAS YR WYDDFA a THLWS EWROPEAIDD

DYDD SADWRN, 13 GORFFENNAF 1996

Diwrnod o hwyl i'r teulu

RAS GYNTAF AM 11 o'r gloch

GWENER, 12 GORFFENNAF

6.00 p.m. PARÊD YR ATHLETWYR o'r Alpine Lodge i Darganfod Dinorwig
gyda Band Deiniolen yn arwain.

7.00 p.m. SEREMONI AGOR yn Narganfod Dinorwig

8.00 p.m. SWPER PASTA yn Ngwesty'r Fictoria a cherddoriaeth fyw
yn nhafarndai'r pentref.

SADWRN, 13 GORFFENNAF

11.00 a.m. DECHRAU RAS YR WYDDFA Edison Mission

11.05 a.m. DECHRAU RAS YR IFANC

1.00 p.m. DECHRAU RAS EWROPEAIDD Y MERCHED

2.30 p.m. DECHRAU RAS EWROPEAIDD Y DYNION gan Bryn Terfel

4.30 p.m. CYFLWYNO'R GWOBRAU a'r **SEREMONI CAU**
yn Narganfod Dinorwig

 **EDISON
MISSION ENERGY**




FIRST HYDRO
AN EDISON MISSION ENERGY COMPANY

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Dyweddio: Llongyfarchiadau i Myfyr Jones, Tan-y-cae, a Gwen o Lanrug ar eu dyweddïad.

Diolch: Dymuna Myfyr a Gwen ddiolch o galon i gyfeillion a chymdogion am eu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu dyweddïad.

Gŵyl Gerdd Dant: Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn y Neuadd Goffa, i godi arian i'r Wyl. Croesawyd Beti a Seiriol Owen yn ôl wedi eu taith gerdded ar hyd arfordir Penfro, a diolchwyd iddynt am gynnig cael eu noddi. Dangoswyd ychydig sleidiau o rai o'u teithiau blaenorol. Enillwyr y raffl oedd: Goronwy Jones, Eirlys Sharpe, Catrin Lambrecht a Jean Jones. Enillwyd y tegau meddal, am ei enwi'n gywir, gan Garry Williams.

Mewn cyfarfod o'r pwyllgor, a gynhaliwyd ar 11 Mehefin, braf oedd cael deall fod y targed o £600 wedi ei gyrraedd ac erbyn hyn mae'r trysorydd, Goronwy Jones, wedi trosglwyddo £705.30 i drysorydd yr Wyl, yn enw Bethel a'r Cylch.

Yr Urdd: Bu nifer o aelodau'r Gangen a'r Aelwyd yn cymryd rhan ym Mabolgampau'r Cylch ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen. Daeth y canlynol i'r brig — Gwenno Thomas, cyntaf am daflu pêl, ac ail am redeg ras gyfnewid y merched; Aled Vaughan, cyntaf am redeg 100m; Bethan Vaughan, cyntaf am naid uchel; Iolo Ellis, ail naid uchel; Owain Siôn, cyntaf naid hir; Iolo Ellis, ail naid hir; Bethan Wyn, ail naid hir.

Clwb Bro Bethel: Cafwyd diwrnod difyr iawn yn ddiweddar pan aeth aelodau a ffrindiau'r Clwb am drip. Wedi seibiant ym Metws-y-coed aethant ymlaen drwy'r Bala i bentref bach Llangynnog, ac yno yn eu disgwyl roedd dau fws-mini i'w

cludo i Eglwys Santes Melangell sydd yn sefyll ym mhen uchaf Dyffryn Tanat. Roedd y Rheithor yno i'w cyfarfod a chafwyd ganddi wasanaeth syml yn yr Eglwys ac ychydig o hanes chwedl Melangell. Roedd te blasus wedi ei baratoi yn y Rheithordy a diolchwyd i bawb am yr holl drefniadau gan y Parchg Gwynfor Williams.

Clwb 100 yr Ysgol: Enillwyr gwobrau mis Mai oedd — £20: Avril Jones, Minffordd (31); £15: Pat Owen, Cefn Cynrig (90); £10: Wendy Grail, 19 Y Ddôl (101); £7: Elizabeth Evans, Blaen Parc (50); £5: Mrs I. Jones, 14 Bryn Paun, Llangoed (7). Enillwyr mis Mehefin yr enillwyr oedd — £20: Nia Morgan, Tegid, Brynsiencyn (33); £15: Pat Jones, 15 Tan-y-buarth (40); £10: Pat Owen, Cefn Cynrig (90); £7: E. W. Williams, 15 Ogwen Terrace, Bethesda (80); £5: E. Watkin, Ty'n Lôn (108). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Clwb 200 y Neuadd Goffa: Enillwyr mis Mai oedd — £10: Mrs Sydney Rowbotham, 8 Tan-y-cae (162); £10: Mr Gwynfor Jones, 24 Cremllyn (22); £5 yr un: Mrs Judith Jones, Gwelfor, Saron (201); Mr Owen Jones, Isfryn, Saron (202); Mis Carron L. Jones, Caernarfon (209); Mrs Falmal Owen, 2 Fron Helyg (59); Mrs Jean Hughes, Nefyn (106); Mr Emrys Read, 5 Cefn Cynrig (89); Mrs Rhian Bardsley, 3 Stad Eryri (106); Mrs Eiriona Williams, 7 Bro Rhos (208).

Llongyfarchiadau i Sioned Owen, Cefn Cynrig, ar raddio gydag anrhydedd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Y flwyddyn nesaf bydd Sioned yn mynd yn ôl i'r coleg i astudio'r pwnc ymhellach, a dymunwn y gorau iddi.

Yn ystod y dyddiau nesaf bydd rhai o bobl ifainc eraill yn cael eu canlyniadau ac yn sicr fe gawn eu llongyfarch yn y rhifyn nesaf o'r Eco. **Newyddion o'r Ysgol Gynradd:** Gan fod y tymor yn brysus ddirwyn i ben mae llawer iawn o weithgareddau wedi eu trefnu.

Ddydd Iau, 19 Mehefin, cynhaliwyd diwrnod mabolgampau llwyddiannus iawn yng ngwres yr haul. Eleni cafwyd cymorth gan Mr Ieuan Jones a rhai o ddisgyblion hyn Ysgol Syr Hugh Owen. Bu'r

WYTHNOS GWEITHGAREDDAU BETHEL

Pêl-droed 6-pob-ochr

NOS LUN, GORFFENNAF 15 am 6 p.m.

Oedrannu: dan 9, dan 11, dan 14, oedolion
Tâl cystadlu : £3 y tîm

Ffurflenni gan Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel

disgyblion o gymorth mawr i lwyddiant y dydd ac mae'r ysgol yn ddiolchgar iddynt am bob cymorth.

Y Tŷ buddugol eleni oedd Cadnant, dan gapteiniaeth Gwenno Thomas ac Arfon Salisbury. Yn ail roedd Tŷ Iolen, dan gapteiniaeth Gemma Whittaker a Derfel Williams; ac yn drydydd Garth, dan gapteiniaeth Nia Catrin Jones a Meirion Ginsberg.

Enillwyd Cwpanau teulu Sycharth gan y ferch a'r bachgen a enillodd y mwyaf o farciau gan Gwenno Thomas; ac yn gyfartal i'r bechgyn roedd Derfel Williams a Karl Ince. Cyflwynwyd y tlysau gan Mrs Sian Harries.

Nos Sadwrn, 15 Mehefin, cymerodd côr yr Ysgol, dan hyfforddiant Mrs L. P. Roberts Williams, ran mewn cyngerdd yn Neuadd J.P. Bangor. Trefnwyd y noson gan Mr Robin Jones, Bethel. Cytunodd pawb i'r plant berfformio'n rhagorol ac yn glod i'r Ysgol drwy gyfnod yr ymarfer yn y prawn.

Fore Mercher, 12 Mehefin, aeth Blwyddyn 6 i weld perfformiad gan gwmni'r Frân Wen yn Ysgol Brynrefail. Thema'r perfformiad oedd y newid a wynebair plant wrth iddynt newid ysgol.

Cynhelir y triplau blynyddol yn ystod yr wythnosau nesaf. bydd y Dosbarth Derbyn yn ymweld â'r Gelli Gyffwrdd; Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Henblas, Môn; a'r Adran Iau yn ymweld â Swi Caer.

Cyfarfod Pregethu: Ddydd Sul, 14 Gorffennaf, bydd y Parchg Gwyn Erfyl yn gwasanaethu yng Nghyfarfodydd Pregethu Capel Cysegr am 10 a 2 o'r gloch.

Priodas: Llongyfarchiadau i Enid Price, Llys Gwynt, Seion, ar ei phriodas yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Enid a Meurig yn eu cartref newydd ym Mro Eglwys. Dymunwn hefyd wellhad buan i Mrs Gwyneth Price yn dilyn ei gwaeledd diweddar.

Y Carnifal: Cynhelir y Carnifal eleni yn ystod wythnos olaf tymor yr ysgol. Nos Lun, Gorffennaf 15fed cynhelir y cystadleuaeth Pêl-droed a Phêl-rhwyd. Nos Iau, Gorffennaf 18fed trefnir Helfa Drysor gyda Bingo yn y Neuadd wedyn. Nos Wener, Gorffennaf 19eg bydd disgo yn y Neuadd gyda'r Carnifal yn y cae chwarae ddydd Sadwrn, Gorffennaf 20fed. Bydd rhaglen y carnifal allan yn ystod y dyddiau nesaf neu am fanylion pellach gellir cysylltu â Nan Owen, Berwyn.

Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn

Cynhaliwyd y Gymanfa ddydd Sul, 5 Mai 1996, yng nghapel Rehoboth, Nant Peris. Arweinydd y gân oedd Mrs Deilwen Hughes, Bethel, a'r organydd oedd Mr Gareth Jones, Capel Coch. Yn ystod cyfarfod yr hwyr cafwyd eitemau gan barti Lleisiau Lliwedd o dan arweiniad Mrs Mattie Hughes. Dyma'r rhai a wobrwyyd yn y Gymanfa:

Dan 4: Danny Owen, Rhiwlas; Liam J. Taylor, Aaron W. Jones, Gavin Taylor, Daniel Lovell, Cadi a Perl Murphy, Ashley McGwigan, Manon Wyn Jones, Deiniolen; Gwenno Medi Morris, Dinorwig; Miriam Pritchard, Nant Peris; Llion Gwyn Jones, Ceri Wyn Hughes, Capel Coch; Sioned Eleri Brown, Llio Roberts, Enfys M. Roberts, Siôn E. Hughes, Cysegr.

Dan 5: Lowri E. Owen, Rhiwlas; Elin A. Morris, Dinorwig; Rhian E. George, Carol ac Awen Jones, Brynrefail; Manon L. Pritchard, Nant Peris; Sara Parry, Sara Jones, Capel Coch; Iona Spake, Elliw Sharpe, Ffion M. Roberts, Hefin Owen, Cysegr.

Dan 6: Dylan Owen, Rhiwlas; Gwenllian A. Owen, Deiniolen; Sioned M. Phillips, Dinorwig; Tomos Parry, Gwyn P. Jones, Ian W. Williams, Capel Coch; Aled G. Jones, Ian M. Jones, Siôn G. Owen, Cysegr.

Dan 7: Nia W. Thomas, Janine Williams, Rhiwlas; Emma Lovell, Michelle D. Jones, Nidian Caffo Hughes, Iola Th. Jones, Daniel W. McGwigan, Deiniolen; Rhian W. Morris, Dinorwig; Carwyn Jones, Gwenonwy Alun, Daniel Lloyd Roberts, Capel Coch; Sioned M. Hughes, Lowri Vaughan Jones, Cysegr.

Dan 8: Alun G. Owen, Rhiwlas; Ffion Th. Jones, Deiniolen; Donna E. Phillips, Dinorwig; Dylan Davies, Brynrefail; Nicholas Welsby, Nant Peris; Gruffudd S. Pritchard, Dafydd J. Evans, Sioned W. Jones, Rhiannon Jones, Carys W. Hughes, Michelle Allsop, Capel Coch; Nia Glyn, Catrin Parry, Kayleigh Jones, Siôn Roberts, Rhys Hughes, Cysegr.

Dan 9: Ceri B. Morris, Dinorwig; Ellen Williams, Brynrefail; Stephanie Welsby, Nant Peris; Elin Roberts, Lliffon J. Jones, Capel Coch.

Dan 10: Sioned M. Thomas, Rhiwlas; Mathew Barlow, Deiniolen; Iwan Jones, Gethin S. Pritchard, Mathew Lloyd Roberts, Capel Coch; Ffion Williams, Lois W. Hughes, Cysegr.

Dan 11: Gethin Jones, Deiniolen; Dafydd S. Pritchard, Bethan Roberts, Capel Coch; Amy Lambert, Brynrefail; Ffion M. Owen, Gwen Rowlands, Llio Hughes, Iwan Morris, Cysegr.

Dan 12: Sara Barlow, Deiniolen; Arwyn Owen, Cysegr.

Dan 13: Delyth Morris, Cysegr.

Dan 14: Eunice Jones, Rhiwlas; Gareth Jones, Capel Coch; Edwina Morris, Ann Lewis, Deilwen Hughes, Myfanwy Harper, Cysegr.

Dros 50: Mrs J. A. Roberts, Mrs L. P. R. Williams, Mr Richard Evans, Brynrefail; Mr John Roberts, Mrs Betty Roberts, Miss Marian Jones, Dinorwig; Mrs Nora Parry, Cysegr.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Rehoboth, Nant Peris am eu cydweithrediad yn cynnal y Gymanfa ac am ymgymryd â'r gwasanaethau dechreuol. Diolch arbennig am y te. Diolch yn fawr i bawb am ddod i'r Gymanfa.

PLAID CYMRU—Cangen Bethel

Helfa Drysor (ceir)

Nos Wener, Gorffennaf 5

Cychwyn o'r Neuadd am 7 o'r gloch

Cost: £1 y car

Gellir archebu bwyd ar gyfer diwedd yr Helfa

Manylion pellach gan NIA ar (01248) 670641

CROESO CYNNES I BAWB

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi
a phob math
o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286)
650552



ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cronfa Macmillan: Casglwyd swm anrhydeddus o £133.59 tuag at Gronfa Cancr Macmillan. Dymuna'r casglyddion, Mrs Eirlys Jones, Gwynant, a Mrs Bessie Williams, Llys Myfyr, ddolch i bawb am eu haelioni.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant mis Mai, a'r enillwyr oedd: 1, Alwyn Williams, Cae'r Bythod; 2, Catrin Glyn, Erw Gain, Llanrug; 3, Kevin Jones, Cae Corniog Bach. Cofiwch am y daith nodedig yng ngofal Leslie Larson, fore Sadwrn, Medi 14, am 10 y bore. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn cychwyn o iard yr Ysgol Gymuned.

Trip yr Ysgolion Sul: Gobeithio bydd y tywydd yn braf ddydd Sadwrn, Gorffennaf 7fed. Bydd y bws yn cychwyn o groesffordd King am 8.30 y bore. Bydd cyfle i bawb gael siopa yng Nghaer a bydd y bws yn cludo y rhai a ddymunant fynd i'r sw; ac yna cychwyn am y ffair yn y Rhyl oddeutu 5 o'r gloch, er mwyn i'r plant gael rhyw awr o sbort a sbri cyn troi am adref tua 7.30-8.00 o'r gloch. Arian i Elizabeth Jones neu Ann Paterson rhag blaen, os gwelwch yn dda.

Ysgol Sul Bosra: Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Ysgolion Sul Deiniolen, Llanberis a Phenisarwaun wedi bod yn anfon arian drwy gymdeithas Action Aid i helpu addysgu plentyn yn Kenya. Merch ddeuddeg oed o'r enw Katilan Singano sy'n derbyn arian ar hyn o bryd. Eleni bwriedir gwneud ymdrech arbennig trwy i blant yr Ysgol Sul gynnal dysgu nodedig. Gofynnir yn garedig i garedigion eu nodd i ddysgu rhannau o'r Beibl ac emynau ar gof. Bydd Ysgol Sul Bosra yn trefnu i brofi'r plant fore Sul, 30 Mehefin. Yna gobeithir trefnu noson gymdeithasol yn festri Ebeneser,

Deiniolen, yn ystod yr wythnos Gorffennaf 15-19, i gloi'r ymdrech hon.

Pen-blwydd Arbennig: Pob dymuniad da i Ken Richardson ar achlysur ei ben-blwydd yn 21ain ar Orffennaf 14. Pob bendith i'r dyfodol.

Pob dymuniad da hefyd i Susan Williams, Bryn Rhdd, ar achlysur ei phen-blwydd hithau ar 3 Mehefin.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Eleanor Jones, Heatherbank; ac Eirlys Jones, Gwynant, ar ddatlu pen-blwydd arbennig iawn. Pob bendith i'r ddwy ohonoch.

Llongyfarchiadau mawr i Ken Williams, Bryntirion, ar ennill gradd mewn arolygu adeiladau.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Elen Williams, 2 Bryntirion, sydd wedi colli ei brawd o Gaernarfon.

Gŵyl Gerdd Dant: Y mae'r casglyddion yn fodlon casglu cyfraniadau at yr Ŵyl ddiwedd y mis hwn. Diolch i chwi oll am eich cydweithrediad a'ch haelioni.

Yr Ysgol Gymuned: Cynhelir Mabolgampau'r Ysgol ddydd Llun, 8 Gorffennaf, ac mae croeso cynnes i unrhyw un ddod yno i gefnogi'r plant. Cynhelir dwy noson agored i'r rhieni wedi gwaith y plant a llaur caled yr ysgol gyfan. Cynhelir trip i'r ysgol gyfan yn ystod yr wythnos olaf ac maent yn llwyr haeddu un wedi eu gwaith ardderchog drwy'r flwyddyn. Gobeithio y bydd yr haul yn grasboeth ac yn gwenu'n braf. Dymunir pob llwyddiant i Siân, Melissa, Karen, Nicola, Charlotte, Jennifer, Joe, Carwyn a Christopher, yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi. Bydd yr Ysgol yn ail-agor ar 3 Medi.

Gwyliau Dedwydd: Dymunir gwyliau dedwydd a diogel i chwi oll.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Genedigaethau: Llongyfarchiadau i rieni a theuluoedd tri o fabanod a anwyd yn ddiweddar. Croeso i Rebeca, merch i Terry ac Alison Parry, Bryn Teg, a chwaer fach i Marc Anthony; Shiobhan Adele, merch i Martin a Monika Robinson (10 Trem Eilian) a chwaer fach i Aiden, a anwyd i Iwan a Delyth Jones, 11 Trem Eilian ar Fehefin 14eg, a brawd bach i Llion ac Aron. **Cymdeithas y Chwiorydd:** Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos lau, Mehefin 13eg, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones, Rhandir. Roedd y defosiwn yng ngofal Mrs Eirlys Williams, Marino. Y gŵr gwadd oedd Mr Meirion Hughes, Caernarfon, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo yn dangos ôl llawer o waith ymchwil ganddo ar afiechyd y cholera yng Nghaernarfon yn ystod y ganrif ddiwethaf. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Roedd y baned yng ngofal Mrs Jennie Roberts, 2 Ffrwd Madog, a Mrs Dilys Jones, Cytir Bach. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 11eg yn agored i unrhyw un ymuno â'r chwiorydd, pryd y disgwylir y Parchg Harri Parri, Caernarfon, i roi sgwrs. Croeso cynnes i bawb.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon: Cafwyd ymateb rhagorol i'r apêl am gyfraniadau i gronfa'r Ŵyl Gerdd Dant a gynhelir yng Nghaernarfon ym mis Tachwedd. Bu casglyddion o gwmpas y pentref a chasglwyd y swm o £111.25. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diau bydd y noson gymdeithasol a drefnwyd ar Fehefin 25ain ar y cŵd â Chwm-y-glo yn

cwblhau'r nod o £250 i'r ddau bentref.

Sefydliad y Merched: Nos Lun, Mehefin 17eg, aeth aelodau'r gangen am eu trip dirgel blyneddol. Ymwelwyd â Chrochendy Eryri ym Mhorthmadog a mwynhawyd y profiad o weld y crochennydd wrth ei waith. I gloi'r noson roedd gwledd ardderchog wedi ei pharatoi yng Ngwesty'r Saracen's Head, Beddgelert. Nos Lun, Gorffennaf 1af, bydd y gangen yn cyfarfod i glywed adroddiad Miss Alice Williams o Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Sefydliad yng Nghaerdydd. Trefnir Barbeciw ar lan Llyn Padarn ar gyfer nos Lun, Gorffennaf 15fed, dan ofal Mrs Mai Davies a Mrs Gwenllian Edwards.

Capel Brynrefail (M.C.): Bydd trefniadau ar gyfer oedfan gweddill yr haf fel a ganlyn:

GORFFENNAF:

7: Cymnafa Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Twrgwyn, Bangor am 6.

14: Mr Merfyn Jones, Caernarfon (5.30)

21: Parchg S. O. Hughes, Bethel (5.30)

28: Mr Richard Ll. Jones, Bethel (10)

AWST:

4: Parchg Harri Parri, Caernarfon (5.30)

25: Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (10)

MEDI:

1: Parchg Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon (5.30)

Plygu'r Eco: Diolch arbennig i bob un fu'n rhan o'r tîm ddaeth i'r Festri i blygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Cwblhawyd y gwaith yn ôl y trefnwyr mewn record o amser. Diolch yn fawr i bawb.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.

Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Tynfa Fisol y Pwyllgor Cae Chwarae: Enillwyr mis Mehefin oedd — £40: Selwyn ac Erina Hughes, 7 Erw Wen (95); £25: Aaron Evans, Llecyn Clyd (99); £15: Geoff Drake, Castellmai (5); £5: Albert Jones, 5 Erw Wen (62). Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth. Gyda chymorth Cyngor Cymuned Waunfawr mae'r pwyllgor wedi ffensiô'r llecyn chwarae er mwyn cadw'r peiriannau pori pedair coes draw oddi wrth y plant! **Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr

haf:

GORFFENNAF

7: Mr Albert Jones (2)

14: Gweinidog (10)

21: Gweinidog cynorthwyl, Parchg Gareth Alban (2)

28: Gweinidog

MEDI

1: Parchg S. O. Hughes (2)

Eisteddfod yr Urd: Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Eisteddfod eleni yn Wrecsam trwy gystadlu, mynychu, cludo neu gyfrannu mewn ffyrdd eraill.



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:-

Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth,

I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri

Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.

am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



**(01286) 671181
(0831) 326160**



IEUAN WILLIAMS Glanffrwd DEINIOLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

DOLBADARN A'R LLYCHLYNWYR Mai 1996

HANES JORVIK

RHAN 1

Cafodd archaeolegwyr hyd i hanes mewn hen lyfrau fod y Llychlynwyr wedi bod yn efrog. Yn y flwyddyn 865 O.C. y daeth y Llychlynwyr i Efrog am y tro cyntaf. Efrog oedd prifddinas y Llychlynwyr. Yn 919 O.C. cafodd y Llychlynwyr eu brenin cyntaf. Cafodd eu brenin diwethaf ei ladd yn y flwyddyn 954 O.C. ond daliai'r Llychlynwyr yn bwysig yn Jorvik am ganrif ar ôl hynny.

Fe wnaeth yr archaeolegwyr ddarganfod arteffactau yn Efrog ac roeddynt eisiau gwybod mwy am y Llychlynwyr ac roeddynt angen mwy o dir i gloddio ynddo. Yn 1976 cawsant dir i gloddio yn Stryd Coppergate.

AWEN PARRY GRIFFITH

RHAN 2

Ar ôl i'r archaeolegwyr gael tir roedden nhw'n defnyddio driliau trwm i symud gwaelodion yr adeiladau.

Yna, roeddent yn defnyddio rhawiau, trywelion, rhawiau bach a brwsys i symud y pridd oddi ar y pethau. Roedd yr archaeolegwyr wedi cloddio drwy tua 34,000 o wahanol lefelau.

Roedd popeth a welodd yr archaeolegwyr yn cael eu golchi a'u labelu ac yna eu rhoi mewn bagiau a bocsys a'u hanfon i gael eu harchwilio gan arbenigwyr.

Tynnodd yr archaeolegwyr lawer o ffotograffau a lluniau a gwneud llawer o waith mesur.

Wrth lwc, roedd y pridd yn ardal Coppergate yn llaith ac roedd yr arteffactau wedi cadw yn dda iawn.

CERI JONES

CANOLFAN JORVIK

Yng nghanolfan Jorvik roedd pethau diddorol iawn am y Llychlynwyr. Wedi mynd lawr y twnnel roedd trên amser yno. Mae'r trên hwn (efo llais Magnus Magnassun sydd ar 'Mastermind') yn dweud wrthyh chi be ydi be.

Teithiodd y trên yn ôl o 1996 i 865 O.C. i'r amser pan ddaeth y Llychlynwyr i Efrog.

Aeth y trên amser a ni heibio siop yn gwerthu lledr. Dros y ffordd roedd marchnad. Yn y farchnad roedd pysgod, cwingod, wyau a ffrwythau ar werth.

Aeth y trên a ni o amgylch Stryd Coppergate i weld y tai. Roedd y Llychlynwyr yn cadw moch tu ôl i'w tai. Roedd yr arogl yn fwy drewllyd na'r cwt mochyn mwyaf budr yn y byd! Aethom drwy un tŷ. Gwelsom ddynes yn pobi bara. Fel roeddem yn dod allan o'r tŷ gwelsom wraig arall yn cario dŵr o'r ffynnon.


Roedd cwch newydd lanio yn yr harbwr a'r pysgotwyr yn ei dadlwytho.

Yna teithiodd y trên ymlaen i'r flwyddyn 1976 pryd y gwelsom archaeolegwyr yn cloddio a darganfod llawer o hen drysorau. Cafodd llawer o'r arteffactau hyn eu cadw a buom yn edrych arnynt wedi eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau gwydr.

Gwelsom fachau pysgota, saethau, pedolau ceffylau, goriadau, cyllyll, cloeon, gwregysau, clustdlysau, breichledau, modrwyau, cribau, esgidiau, powlenni, llwyau, cloriannau a llawer mwy.

Brysiwch i'r lle arbennig yma!

BLEDDYN JONES, LLIFON JONES,
IWAN JONES, MATHEW LLOYD ROBERTS



Bleddyn yn gwarchod Canolfan Jorvik.

PENTREF HOULGATE


Ochneidiais ar ôl cyrraedd rhywle diddorol, cyffrous ac unigryw, lle roeddem am gael profi bywyd fel y bu yn Efrog dros fil o flynyddoedd yn ôl, adeg y Llychlynwyr. Roeddwn i, a gweddill disgyblion blwyddyn 4/5, wedi cyrraedd pentref Houlgate yn Efrog.

Cawsom deithio yn ôl mewn amser i weld sut roedd y Llychlynwyr yn byw. Gwisgom ni'r plant a'r athrawon ddillad fel yr oeddent yn ei wisgo bryd hynny, a cawsom flas ar ddiwrnod arferol ym mywyd y Llychlynwyr.

Bu'n ddiwrnod prysur iawn a ninnau'n palu, trwsio, gwneud llestri pridd a chynhyrchu bwyd. Ar ddiwedd y dydd cawsom wledd a bwyta bwyd fel yr oedd y Llychlynwyr yn ei fwyta.

Roedd yn ddiwrnod gwyh, ac os cewch chi gyfle i fynd i Efrog peidiwch a cholli y profiad arbennig o ymweld â phentref Houlgate.

IWAN LLOYD PITTS



'Gwylia fy mys i, Philip.'



GWARCHOD

DING-DING! canodd y gloch. Dim ond un gweithgaredd ar ôl a'r gweithgaredd hwnnw i fy nheulu i oedd gwarchod y pentref. 'My Lady' oedd yn ein hyfforddi ni sut i wneud y gwaith. Roeddem yn gwisgo tiwnic, helmed a cawsom darian a gwaywffon fel arfau.

Gwarchod oedd y gwaith gyda'r mwyaf o gyfrifoldeb, achos pe bai rhywun yn anghofio sgubo, garddio, pobi bara neu gynnu'r tân mi fyddai'n bosib byw. Ond os oedd un camgymeriad bach yn cael ei wneud wrth warchod roedd hi'n hawdd i'r Sacsoniaid ymosod ac yna cymryd y pentref iddyn nhw eu hunain. Yn ffodus, dim ond un Sacson ddaeth i geisio torri trwy wyth gwarchodwr! Dywedodd Steinolf mai dod am wybodaeth a wnaed ac nid i ymosod.



Rhan 1

Roedd y bws wedi cyrraedd y gwesty ac roeddwn i, Mathew ac Iwan wedi croesi'n bysedd ers meitin ein bod yn rhannu ystafell.

'Ystafell 7, Gethin, Mathew ac . . .'

'Gobeithiwch mai Iwan ddywedith hi!'

' . . . Iwan Jones!'

'Yes,' gwaeddodd Iwan a brysio ar ôl Mathew a fi.

'Fi sy'n top y bync!' gwaeddodd pawb ond roeddwn i yno cyn pawb.

'Fi sy'n gwaelod y bync,' gwaeddodd Mathew ac Iwan ond methodd Iwan eto.

'Pam fi?' gwaeddodd wrth drio gweithio'r teledu.

Wedyn tynnais lun o'r ystafell wely, roedd Iwan yn yr ystafell molchi. Y peth nesaf glywais:


'Dydi'r loc ddim yn gweithio!'

Stampiodd Iwan o'r ystafell molchi wedi gwylltio yn gacwn.

'Fflipin toilet,' dywedodd o dan ei wynt.

Fe roedd pawb wedi setlo erbyn hyn a'r rhan fwyaf yn gwyllo cartŵn babiaidd ar Granada TV (dyna roedden ni yn ei wneud hefyd). Roedd Mathew yn gafael yn dynn yn ei dedi mwnci. Es i orwedd ar y gwely am ychydig wedyn tra roedd Iwan yn brysio yn tynnu llun o flodau i lawr a rhoi plac Llychlynwyr i fyny! Roeddwn yn darllen drwy lyfr i wneud model.

Ar ôl chwarter awr fe ddringodd Mathew ac Iwan i dop y bync a 'nychryn i. Neidiodd y ddau i lawr, disgynnais ar y dresal a bu bron i mi dorri'r drych. Clywais sŵn rhywun tu allan i'r drws. Neidiais i'r bync yn sydyn a gafael mewn llyfr.



Roedd Iwan yn y toilet (eto) a gwaeddais, 'Smalia ddarllen llyfr!' wrth Mathew. Ond roedd y drws wedi agor a Miss Owens yno yn barod. Doedd hi ddim digon twp i gredu mai dyna oeddwn i wedi bod yn ei wneud — roedd y llyfr â'i ben i lawr! Chwerthodd Mathew a fi yr eiliad y caeodd hi'r drws.

Ar ôl dipyn wedyn aethon ni i gael te. Fe gawsom ni gawl i ddechrau, wedyn caserol a hufen iâ i bwddin.

Rhan 2

Ar ôl bwyta daeth llais mawr a boddi siarad y plant. 'Dwi'n meddwl y buasa ni i gyd yn lecio diolch i Mr a Mrs Brookes am y swper. Rŵan ewch chi i gyd i'ch llofftudd ac efallai awn ni am dro wedyn — dibynnu ar y tywydd.' Roeddwn i a Mathew hefo'n gilydd yn y gornel yn chwarae OXO ar y ffenestr. Mathew gurodd achos roeddwn i yn chwarae gêm wahanol! Aethom i'r llofft a chwarae yn wirion ar y bync. O'r diwedd penderfynodd y tri ohonom gael cystadleuaeth dawnsio a chanu! Enillodd neb achos roedd pawb eisïau gweld 'The Bill'. Felly aethom ar y gwely dwbl i'w weld ond doedd o ddim wedi dechrau ond roedd 'Top Gear' ymlaen. Aeth Mathew i'w wely am eiliad ac wedyn troi y teledu ar ITT (neu HTV yn Llanbêr). Roedd y 'Bill' yn dechrau.

Ar ôl y 'Bill' clywsom sŵn mawr uwch ein pennau ni. Rhedais i weld beth oedd o. Iwan

Morris a phlant ei lofft oedd yn neidio. Doedd dim pum eiliad cyn i Mrs Roberts ddod yno — yn gweiddi ar bawb.

Ar ôl hynny gofynnodd beth oeddem ni eisïau i frecwast — bîns ar dôst, wy a bacwn neu wy, bacwn a bîns. Cafodd Richard drafferth yn ordro. Eisïau bacwn a thôst i ddechrau.

'Dim yn bosib,' meddai Mrs Roberts.

'Wy, bacwn a thôst?'

'Dim yn bosib.'

'Bîns a thôst?'

'HWRE!'



Wedyn, newidiais i'm pyjamas wrth weld 'Hollywood Pets'. Ar ôl gweld un rhan aeth iwan i'r gawod a Mathew a fi i gwffio. Trawodd Mathew fi â torch ac roeddwn i'n crio.

Es i geisio cysgu ond doedd dim posibilgwneud. Roedd rhywbeth tu mewn yn gwneud i mi ymuno hefo Mathew ac Iwan i ddweud jôcs. O'r diwedd es i gysgu a daeth Mrs Pierce i mewn a Mathew yn dweud mai fi oedd yn gwneud sŵn.

Rhan 3

Deffrais a chael cawod a newid. Ar ôl clirio aethom i lofft Jonathan i siarad cyn cael brecwast — corn flakes a bîns ar dôst — dyna oeddwn i wedi eu dewis y noson cynt.

Roedd y bws yn barod i gychwyn a phawb arni, pryd . . .


'Mae Kenny yn crio,' gwaeddodd rhywun.

'Pwy sy'n crio? Be sydd Kenny?' gofynnodd Mrs Roberts.

'Dwi wedi anghofio fy nghamera.'

Wedyn, daeth Dad i'r bws hefo camera Kenny ac roedd pawb yn barod am Houlgate Village. Ond stori arall yw honno . . .

GETHIN SIÔN



Gair gan Delyth . . . Gwyliau yn Nepal

Yn ystod gwyliau'r Pasg mi es i draw i Nepal i gerdded yng nghanol mynyddoedd yr Annapurna, a thra roeddwn yno mi gofnodais rai o'r digwyddiadau mewn dyddiadur ac, felly, mae croeso ichi fodio drwy ei dudalennau.

Mawrth 30 (Sadwrn):

Brunei/Bangkok

Deffro am chwarter i bump bore heddiw er mwyn bod yn barod i gychwyn ar ein taith i Nepal. Taci Shell yn cyrraedd acw am 05.30 a disgwyl gweld un o'm cyd-deithwyr yn y taci'n barod ond yn amlwg roedd Jon yn dal yn ei wely!

Cyrraedd Bangkok erbyn amser cinio, efo fy nghyd-deithwyr, a siopa tan saith. Anghofio bod rhaid troi'r cloc yn ôl awr, felly siopa tan chwech! Gwely erbyn wyth — wedi ymladd.

Mawrth 31 (Sul):

Bangkok/Kathmandu

Brecwast cynnar ac yna i ffwrdd â ni am y maes awyr unwaith eto. Dros awr i gyrraedd y maes awyr oherwydd y traffig. Yr awyren yn llawn o drecwyr a milwyr Gyrcas yn mynd yn ôl adref.

Hedfan dros yr Himalayas cyn glanio yn ddiogel yn Kathmandu, Nepal.

Y tywydd yn gynnes braf ac yn ysgafn o'i gymharu â thymheredd trymaidd y trofannau.

Awr a hanner o giwio am fisa, ond ar ôl llenwi'r holl ffurflenni, croeso mawr yn ein disgwyl y tu allan, sef teulu Kami, ein tywysydd am y pythefnos nesaf. Cael blodau 'garland' o amgylch ein gyddfau gan wraig Kami a theimlo fy mod ar 'Hawaii Five-O'!

Cyrraedd gwesty Thamel ac yna i ffwrdd â ni i ymdrochi ychydig yn niwylliant a ffordd o fyw y Nepal.

Yn sicr, mae'r awyr yma yn aflan iawn ac mae gen i ddolur gwddw yn barod. Pawb yn ceisio gwerthu eu nwyddau i chi drwy'r system fargeinio, sy'n hwyl i ddechrau ond sy'n eich blino hefyd.

Swper yn nhŷ Kami a chael cyri gwerth chweil ond paned o de erchyll! Te gwan, gwan, hefe LLWYTH o lefrith cynnes!

Gwely erbyn 8.30 wedi blino'n llwyr. Gwlad lle mae pawb yn codi'n fore a noswyllo'n gynnar.

Ebrill 1 (Llun):

Kathmandu

Codi am chwarter i saith a chael cyri i frecwast.

Allan o'r gwesty erbyn wyth.

Diwrnod o ymweld o'n blaenau, felly cychwyn ein taith drwy gerdded am sgwâr Durbar, a theimlo'n fudr ar ôl cerdded am hanner awr yn unig. Mae'r aer yn aflan iawn yma. Gweld llawer iawn o gardota — yn enwedig plant. Mynd i deml y 'Living Goddess', sef teml lle mae merch fach saith oed newydd ei dewis yn dduwies hyd y bydd yn ddeuddeg oed. Bydd merch fach arall wedyn yn cael ei dewis ond 'dwn i ddim beth fydd hanes y 'dduwies' yma wedyn. Roeddem yn ffodus iawn i gael cip ar yr eneth fach gan iddi ddod at y ffenest am rai eiliadau.



Y criw a fu'n trecio efo fi.

Taci i Pashupatinath i weld yr amlwgfa ble mae rhai o'r Hindw yn llosgi eu hymadawedig, ac yna'n rhoi'r llwch yn yr afon — Afon Bagmait — yn y gobaith i'r llwch deithio i lawr yr afon ac i Afon Ganges. Y dynion 'Holy Men' yma yn yfed dim ond llefrith! Llauer iawn o dlodi yma hefyd.

Taith wedyn i weld y Bodhnath Stupa, sef teml Hindwaidd sydd efo pâr o lygaid sy'n edrych arnoch o bob cyfeiriad. Roedd y llygaid fel pebaent yn fy nilyn. 'The Third Eye' ydi'r enw a roddir ar y llygaid yma.

I ffwrdd â ni rwan am dref Bhaktapur, i'r sgwâr sy'n llawn o demlau o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Prynu crys-T y 'llygaid' yn unig gan fod y bargeinio yn fy mlino a llawer o'r trigolion yn rhedeg ar ein hôlau efo'u nwyddau amrywiol. Yn ôl yn y gwesty erbyn 6 ac wedi cael digon ar ymweld â gwahanol

adeiladau a'r bargeinio a'r budreddi truenus. Swper a gwely cynnar unwaith eto ond nid cyn cael cawod a gochi fy ngwallt er mwyn cael gwared â'r holl lwch sy'n glynu ynof.

Ebrill 2 (Mawrth):

Kathmandu/Pokhara

Brecwast am 7.30 a chyrraedd y maes awyr erbyn 8.30 er mwyn dal awyren a hedfan i Pokhara, sef y dref a fydd yn gychwyn i'n trec ni.

Gweld Edmund Hilary yn y maes awyr! Ond, yn anffodus, dim amser i fynd ato a dweud 'helo' gan ei fod ef a'i gyd-deithwyr yn cerdded tuag at eu hawyren cyn inni sylweddoli pwy oedd yn eistedd o'n blaenau yn yr ystafell ddisgwyl! Dyn mawr, cyhyrog, efo gwallt gwyn reit gyrliog a gwên fawr lydan ar ei wyneb. 'Dwn i ddim faint yw ei oed, felly rhaid fydd imi ofyn i rhywun.

sef cychyn ar y trec!

Fy nghefn yn brifo ar ôl y gwely pren ac wedi blino oherwydd diffyg cwsg. Poen yn fy stumod, a gobeithio nad effaith swper y noson cynt ydyw.

Ni'n tri a chriw o saith o Nepal, felly deg i gyd, os ydi fy syms i yn iawn. Y sherpa ydi Wangchuck (y bô) a'i ffrind Mingmar. Enw'r cogydd ydi Nima a'r ddau 'kitchen boys' ydi Siorsing Maila a Nawang Tiri. Y ddau bortar ydi Manbardwt a Ramcwmar. 'Dwn i ddim os ydw i wedi sillafu'r enwau'n gywir gan nad yw'r criw yn gallu sgwennu, felly dwi wedi sgwennu eu henwau yn ffonetig!

Diwrnod dwi'n dymuno ei anghofio gan fy mod erbyn amser cinio bron methu cerdded gan y boen yn fy stumog a'r cyfnodau o benysgafndod ofnadwy. Kerry a Jon yn gorfod gafael yn fy llaw a'm llusgo i fyny'r llethrau. Doedd dim troi'n ôl, felly rhaid oedd cario 'mlaen. Cael tabled gan gwpwl o Portiwgal a gorfod gorwedd i lawr ar wal gerrig gyfagos, a syrthio i drwmgwsg am ddwy awr. 'Dwn i ddim beth oedd yn y dabled a gefais ond roeddwn i'n teimlo'n llawer iawn gwell ar ei hól ac ar ôl cysgu tipyn.

Erbyn cyrraedd ein gwersyll am y noson, roedd hi'n 'stillo bwrw glaw, felly rhaid oedd aros mewn 'tea house' cyfagos yn hytrach na chodi'r pebyll. Roedd yr ystafelloedd fel celloedd mewn carchar!

Tro Kerry oedd hi rwan i fod yn sâl, a choeliwch fi doedd ein gwesty am y noson ddim yn lle i fod yn sâl — yn enwedig pan fo'r dolur rhydd arnoch a dim toiled yn unlle, ond twll yng ngwaelod cae, a hithau'n gythreulig o oer a gwlyb y tu allan!

Roedd Jon a minnau yn meddwl y byddai'n rhaid cael hofrenydd allan i'w nôl gan ei fod yn gruddfan mewn poen drwy'r nos. Diwrnod a hanner, ond, diolch i'r drefn nad oedd Kerry a fi yn sâl yr un pryd neu fe fyddai wedi bod yn giami iawn arnom!

Ebrill 4 (Iau):

Potana/Gandrung

Codi am 6.30 a Kerry yn dal yn sâl, ond yn llawer gwell nag ydoedd yn ystod y nos.

Y golygfeydd o'r mynyddoedd yn werth eu gweld. Cychwyn ar ein taith am wyth y bore ond dim stumog i frecwast gan Kerry na minnau, er fod y bwyd a baratowyd ar ein cyfer yn fwyd da a maethlon.

Cerdded am bedair awr gan aros am ginio ar ben bryn enfawr. Y bwyd wedi'i baratoi ar ein cyfer erbyn inni gyrraedd, gan fod y cogyddion yn cerdded yn llawer iawn cyflymach na

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN
PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30

Ffôn: (01286)
870922

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN



GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

ni. Cinio gwerth chweil — salad, pasta a ffrwythau. Fy stumog i yn eitha erbyn hyn, Jon rêl bôl a Kerry druan yn dal yn reit dendar! Cyfarfod bachgen o dde Cymru oedd wedi bod tuag at A.B.C, sef Annapurna Base Camp.

Taith gerdded o bedair awr ar ôl cinio a gorfod gwerylla yn gynt na'r disgwyl gan fod Kerry yn rhy wan i orffen taith y dydd. Bwrw glaw tra roedd y sherpas yn codi'r pebyll, ond noson serenog braf wedyn, a bwyta ein swper allan yng ngolau'r lleuad. *Ebrill 5 (Dydd Gwener y Groglith): Gandrung/Banthanti*

Codi am 6. Kerry'n well. Jon yn iawn, ond fy stumog i yn dendar iawn. Teimlo'n waeth fyth wedi ymweliad â'r toiled cyfagos. Fy mrecwast bron iawn wedi ymuno â gweddillion rhywun arall ond, trwy ddal fy nghwynt a chau fy llygaid, llwyddo i gadw'r bwyd yn fy stumog.

Y cerdded heddiw yn galetach na ddod, ond erbyn y pawns, dim mwy o gerdded i fyny'r llethrau. Y coedwigoedd yn llawn rhodedendron lliwgar. Cyfarfod y ddau gwpwl o Portiwgal unwaith eto a chael mwy o'r tabledi stumog ganddynt!

Oer ofnadwy heno — dau bâr o drowsus, tair siwmpwr, côt, menig, het, a dau bâr o sanna! Bwyta swper blasus o gawl garlic a coriander, reis, dumplings a blodfresych — bwyta hyn i gyd heb dynnu'r menig! Wangchhuk yn deud straeon wrthym am y bandits yn dod i lawr o'r mynyddoedd yn ystod y nos ac yn agor pebyll ymwelwyr hefo cyllyll gan ddwyn eiddo'r cerddwyr tra fo'r bobl yn cysgu'n sownd. Canlyniad y stori — dim llawer o gwsig i mi, er fod un o'n sherpas yn cadw golwg drwy'r nos ac hefyd roedd yna lamp baraffin yn olau tu allan i'n pebyll.

Ebrill 6 (Sadwrn):

Banthanti/Ghodepani

Pawb yn teimlo'n iawn heddiw ond unwaith eto bu bron i mi gyfogi tra'n ymweld â'r toiled!

Y golygfeydd wedi gwella bob dydd. Gweldd mynyddoedd yr Annapurnas i gyd yn un llinell hardd o'n blaenau. Yr haul yn gynnes braf ac, am y tro cyntaf, amser i orffwys ar ôl cael cinio gan nad oes mwy o gerdded i'w wneud heddiw! Dim ond pedair awr o gerdded wedi ei wneud heddiw felly. Amser i orwedd yn yr haul, sgwennu 20 o gardiau post a sgwennu yn y dyddiadur hwn. Pawb wedi mwynhau'r cinio heddiw, a finna wedi bwyta mwy na neb!

Yr haul yn llosgi fy mreichiau a'm coesau tra dwi'n sgwennu hwn ac yn



Golygfa o'r Annapurna o bentref Ghodepani.

mwynhau'r olygfa sydd o'm blaen ar yr un pryd. Un o'm cardiau post yn hedfan i fwrdd yn y gwynt ond, wrth lwc, un o fois y gegin yn llwyddo i'w ddal.

Tra'n cerdded mae'r ddau borter tua gwaith awr o gerdded y tu ôl inni, a'r cogydd a bois y gegin tua awr o'n blaenau bob dydd. Mae'r ddau sherpa, sef Wangchhuk a Mingmar bob amser efo ni'n tri. Un ar y blaen a'r llall fel cynffon y tu ôl i ni. Does dim yn ormod o drafferth iddynt ac rydym erbyn hyn wedi dod yn ffrindiau agos. Mae llawer o ffrindiau a theulu y ddau sherpa wedi eu lladd tra'n dingo'r mynyddoedd. Hyn oherwydd afalans bob tro. Y ddau sherpa yn deud, er mor hardd ydi'r mynyddoedd i ni yr ymwelwyr, maent yn beryglus iawn hefyd, hyd yn oed i sherpa profiadol.

Cerdded i'r pentref cyfagos gyda'r nos a gweld un o'r pentrefwyr (dyn!) yn gweu siwmpwr. Prynu pâr o sanna gwlan gafr ganddo gan obeithio y gwneith Dad eu gwisgo tra'n 'sgota! Oer ofnadwy heno, ond diolch byth fod gen i sach gysgu o safon uchel. Oedd, mi roedd yn ddrud i'w phrynu ond mae wedi bod yn werth pob ceiniog.

Ebrill 7 (Sul y Pasg):

Ghodepani/Pokhara

Wedi hen arfer erbyn hyn â'r drefn foreuol. Paned o de am 6 yn y babell, dŵr cynnes mewn disgl i ymolchi am 6.30 a brecwast erbyn 7. Penderfynu peidio codi am 4.30 i weld yr haul yn codi tu ôl i'r mynyddoedd, gan nad oeddwn yn teimlo'n dda o gwbl — teimlo'n ben-ysgafn iawn eto. Diolch fyth fod gen i'r tabledi gwythriol a gefais gan y cwpl o Portiwgal, gan eu bod yn gweithio'n grêt i gael gwared a'r chwilder ofnadwy sy'n gafaél ynof bob bore.

Taith gerdded braf heddiw ond y tywydd yn ein herbyn. Roeddwn i wedi amau y byddai'n bwrw glaw erbyn y pawns, ond pawb arall yn deud na! Wel, fi oedd yn iawn gan i ni gael storm o felt a th'rannau a gorfod cysgodi yn un o'r ffermdai cyfagos. 'Dwn i ddim beth oedd y gwaethaf, y glaw a'r mellt ynteu'r mwg o dân y ffermdy, gan fod fy llygaid yn dyfrio oherwydd yr holl fwg. Y rheswm dros y mwg oedd nad oes simnai gan y ffermdai mynyddig yma.

Ar ôl awr, penderfynu cario 'mlaen drwy'r glaw. Y llwybrau yn llithrig oherwydd y glaw a'r holl faw a adawai'r mulod mynydd ar eu hólau.

Erbyn cyrraedd diwedd taith y diwrnod, yr haul yn gwenu eto, a chael hwyl yn chwarae'r gitâr a ddaeth John hefo fo, ac yna cael gêm o gardiau hefo'r criw. Kerry yn malu gewin-chwarae-gitâr Jon tra'n chwarae 'snap' a'r Nepalîs yn meddwl fod 'snap' yn gêm ddiddorol iawn! Swper blasus unwaith eto a Nima, y cogydd, wedi coginio cacen fawr inni gan mai dyma'r swper olaf efo'n gilydd. Y stumog yn brifo yn ystod y nos a'r hen chwilder yn dechrau unwaith eto.

Ebrill 8 (Llun y Pasg):

Pokhara/Chitiwang

Brecwast am y tro olaf efo'r criw gan mai heddiw yw diwrnod ola'r trec. Y stumog yn eitha, felly bwyta'r tatws oer a'r uwd a roddwyd o'm blaen.

Taith hamddenol bore heddiw, gan nad oedd dim dringo i'w wneud, dim ond dilyn yr afon i lawr o'r mynyddoedd. Cael cinio am y tro olaf efo'r criw ac yna taith o awr cyn cyrraedd y bws oedd i'n cludo yn ôl i Pokhara. Ffarwelio â'r ddau borter

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch
Ffôn: (01286) 870576

Dymuniadau Da: Deallwn bod Emrys Owen, Bron Myfyr, wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddo.

Dyddiadau i'w Cofio: Cofiwch mai ni yn Ninorwig fydd yn gyfrifol am blygu rhifyn nesaf o'r Eco. Bydd hyn cymryd lle ar nos lau, Medi 5, yn y Ganolfan. Fel y gwyddoch, os daw criw da at eu gilydd fe allwn orffen y dasg mewn dim o amser. Felly, cofiwch ddod draw i'r Ganolfan ar y noson honno. Nid yw yn ormod i ofyn i ni wneud y gwaith yma unwaith y flwyddyn. Gyda llaw, os oes unrhyw un yn barod i drefnu hyn yna byddai Glyn Tomos yn falch o glywed gennych. Yr ail ddyddiad i'w gofio yw nos Lun, 9 Medi, am 7.30 o'r gloch pryd y disgwylir i aelodau newydd pwyllgor y Ganolfan gyfarfod am y tro cyntaf.

Haf Hapus: Gyda'r tywydd yn edrych yn fwy tebyg i'r hyn a ddisgwyliwn amser yma o'r flwyddyn pob hwyl i bawb dros yr haf ac edrychwn ymlaen at weld llond trol o newyddion yn dod i ddwylo y gohebydd pentref ar ddiwedd mis Awst ar gyfer eu cynnwys yn y rhifyn nesaf ym mis Medi.

Cyfarfod Dosbarth: Cynhaliwyd Cyfarfod Dosbarth Padarn yng Nghapel Dinorwig, nos Fercher, Mehefin 19. Roedd yr Oedfa Gymuned dan arweiniad y Parchg Gareth Alban. Daeth cynulleidfaf gref ynghyd ar noson hyfryd o haf.

oedd wedi cludo ein bagiau yn ddi-ffwdan ers wythnos ond cael llun grŵp cyfan i ddechrau, ac yna rhoi 'tip' iddynt ac hefyd bag o ddillad ail-law roeddem wedi eu cario ar eu cyfer hefo ni.

Siwrnai o awr ar y bws ac yn penderfynu peidio aros yn Pokhara ond yn hytrach dyma drefnu trip i Barc Cenedlaethol Chitiwang, sy'n enwog am eu rheinos, eirth a theigrod gwyllt. Cychwyn ar daith bedair awr mewn car anesmwyth a thraffig gwyllt cyn cyrraedd Chitiwang erbyn wyth.

Cwyno am yr ystafelloedd ond yn y diwedd cael ystafell eitha. Wedi llwyr ymlâdd (unwaith eto!) felly — gwely erbyn naw.

Y tro nesaf — Delyth yn ffoi rhag y rhino!!



**SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR**

**Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi**

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

ATGOFION AM FY NHAD . . . Robert David Jones (Chris)

(6 Mehefin 1885 - 19 Mehefin 1968)

Ganwyd yn Bakery Street ym mhentref Rhiwlas, yn un o bump o blant Dafydd a Catrin Jones. Symudodd y teulu oddi yno, pan oedd yn ifanc iawn, i dyddyn Maes Meddygon a safai ar lethrau Moel Rhiwen, rhyw ddwy filltir o'r pentref, ac ar y llwybr troed sy'n arwain o Rhiwlas i Ddeiniolen. Safai ar lecyn anial a diarffordd, heb dŷ arall yn agos iddo. Tŷ gydag un croglloft ac un siambar oedd Maes Meddygon, lle cyfyng iawn i godi teulu o ŵr a gwraig a phump o blant.

Wrth sefyll o flaen y bwthyn gellid gweld Afon Menai a Sir Fôn, ac ar ambell ddiwrnod clir mae Ynys Manaw i'w gweld yn glir. Bu'r llwybr troed heibio talcen y tŷ yn ffordd bwysig a phrysur ar un cyfnod gan mai hon oedd y ffordd fawr a redai o Gonwy i Gricieth, ac yn ôl yr hanes, roedd llawer o ffordd-ladron yn aflonyddu ar y teithwyr a drafaelïai arni. Yn gyfochrog â'r llwybr mae dyffryn serth, oddeutu tri chwarter milltir o hyd, gyda meini enfawr ar ei waelod. Gelwid y dyffryn yn Pant Lladron, a phan yn blentyn, credai fy nhad fod trysorau wedi eu claddu odanynt gan y ffordd-ladron. Tyrchai yno yn gyson ond ni lwyddodd erioed i ddarganfod dim o'r trysorau.

Cerddai ef a'i ddwy chwaer, Anna ac Elisabeth (Leusa), a'i frodyr Dafydd a Morris, i ysgol Waen Pentir bob dydd ac ym mhob tywydd. Ar ei ben-blwydd yn dair ar ddeg oed, yn 1898, cafodd waith yn Chwael Dinorwig ac arferai gerdded oddeutu chwe milltir bob bore a nos i'w waith. Cyn cael gwaith yn y chwael roedd yn ofynnol iddo gael nodyn gan y Prifathro i sicrhau goruchwylwyr y chwael ei fod yn rhydd i adael yr ysgol. Mae'r llythyr a gafodd yn fy meddiant, a dyma ei gynnwys:

W. W. Vivian, Esq.
Dinorwig Quarry

Sir,

I beg to certify that Robert Jones has worked in my school for some time in the 6th Standard and that he is

exempt from the obligation to attend school under the Bylaws of the Llanddeiniolen School Board.

Yours Respectfully,

John B. Jones

*Head Master
Rhiwlas Board School
9 June 1898*

Yn ystod y gaeaf byddai'n cychwyn i'w waith ymhell cyn torriad gwawr ac yn cyrraedd adref ymhell wedi'r machlud. Oriau gweithio yn y chwael oedd o saith y bore hyd hanner awr wedi pump y nos; diwrnod eithriadol o hir i fachgen tair ar ddeg oed. Yn ystod y tywydd garw cyrhaeddai ei waith wedi gwlychu at ei groen a byddai'n rhaid iddo weithio trwy'r dydd yn ei ddillad gwlyb. Prin iawn oedd y cyflog a themlai ei hun yn ffodus os câi goron o gyflog am y mis.

Gweithiai ei dad yn Chwael y Penrhyn, mewn cyfnod o anghydfod diwydiannol mawr, ac fe fu ei gyfraniad ariannol, er mor fychan ydoedd, yn help i'r teulu. Yn fuan wedyn fe gafodd gweithwyr y Penrhyn eu 'cloi allan' o'u gwaith ac fe feu'i dad heb gyflog sefydlog am flynyddoedd.

Yn ystod ei ardddegau symudodd y teulu i'r Hen Siop Chwael, Blue Peris, Dinorwig, gan arbed iddo y daith gerdded faith i'w waith bob dydd gan fod y 'Siop Chwael' o fewn tasliad carreg i'r chwael.

Tra'n byw yn Ninorwig mynychai'r teulu Eglwys St. Mair, gan mai yno roedd yr addoldy agosaf i'w cartref, er mai ymneilltuwyr Wesleiaid oedd y teulu wedi bod erioed. Amharod iawn fyddai o gyfaddef ei fod wedi ei dderbyn yn aelod cyflawn o'r 'Eglwys Brydeinig' gan mai 'cynffonwyr' yn unig o blith y chwaelwyr a ymaelodai yn yr Eglwys, a hynny yn aml er mwyn cael eu dyrchafu'n stewardiaid.

Ar 3 Mehefin 1902 bu'n llwyddiannus mewn arholiad 'Tonic Sol-ffa' ac fe fyddai yn dangos ei dystysgrif i ni gyda balchder. Hwn oedd un o'r achlysuron prin yn ei

hanes y cafodd lwyddiant yn y byd academaidd. Prynodd organ fechan, gyda dwy bedal iddi, yn siop Cranes ym Mangor, a thalai amdani bob mis. Prynodd hefyd oriawr boced aur o siop Pozzi ym Mangor, ac er ei fod wedi cael pleser mawr gyda'r organ, cafodd fwy o bleser gyda'r oriawr, fel y cewch weld yn nes ymlaen.

Daeth awydd ar y teulu i symud unwaith eto, a'r tro hwn cawsant dŷ yn 12 Porth y Gogledd, Deiniolen. Ymunodd â Band y pentref a bu'n aelod ffyddlon am 43 o flynyddoedd. Gwnaed ef yn aelod anrhydeddus am oes wedi iddo roi'r gorau i chwarae offeryn, ac ar ei farwolaeth fe wasanaethasant yn ei angladd, Bu'n chwarae'r cornet i fan y Royal Welch Fusiliers yn ystod y rhyfel, ac fe fu'n chwarae gyda band Llanberis a chydau band Llanrug. Bu hefyd yn canu'r bugle yn y fyddin. Roedd yn hoff iawn o ganu er mai llais digon cyffredin oedd ganddo.

Priododd â Jane Jones, Erw Fair, Deiniolen, ar 6 Ionawr 1911, pan oedd yn 25 mlwydd oed, a fy mam yn 22 mlwydd oed. Cawsant ddiwrnod o 'fis mêl' ym Metws y Coed, y diwrnod o wyliau olaf a gafodd y ddau gyda'i gilydd am lawer iawn o flynyddoedd. Richard Morris, ei gyfaill, oedd y gwas priodas; a Sarah Jones, chwaer fy mam, oedd y forwyn briodas. Priodwyd hwy yn y swyddfa gofrestru, Caernarfon, a gwnaethant eu cartref yn 5 Porth y Gogledd. Bu iddynt bump o blant, sef Katie, Eleanor, Nell, Jennie Eirlys, Gwyneth, David ac Owen.

Roedd yn bur hoff o'i beint ac ai allan unai i'r Bull neu'r Wellington bob nos o'r wythnos, ac eithrio nos Sul gan fod y tafarndai ar gau y noson honno. Ni welais ef erioed mewn tymer ddrwg er y gallai wylltio yn sydyn ambell dro, ond fe fyddai wedi anghofio am y peth cyn pen dim amser. Roedd yn hynod o hapus bob amser ac yn boblogaidd iawn yn yr ardal. Mynychai'r capel yn rheolaidd ac yr oedd yn dra hyddysg yn ei Feibl. Er mai Robert David Jones y'i bedyddiwyd, fel Chris yr adweinid ef gan bawb. Mae'n debyg ei fod yn cystadlu yn eisteddfod Cefnywaun ar unawd cornet, ac enillodd y wobr gyntaf. Brwynog Jones, cerddor o Lanberis a rheolwr yn y chwael, oedd y beirniad, ac meddai: 'Peidiwch byth a'i alw yn R. D. Jones eto, eithr 'Chris' — mae ganddo yr un steil yn union â Chris Smith.' Gŵr o'r enw Chris Smith oedd hyfforddwr Band Llanberis ar gyfer cystadlaethau mawr y cyfnod.

Glynodd yr enw ynddo, ac mae'r enw 'Chris' wedi ei naddu ar ei garreg fedd.

Torrodd y Rhyfel Byd Cyntaf allan yn 1914, ac yn 1915 ymunodd yntau â'r Royal Welch Fusiliers. Dechreuodd yn y fyddin yn Wrexham gyda llu o ddynion eraill o'r ardal hon. Symudwyd hwy i'r Amwythig, Bedford ac wedyn i Norwich cyn iddo fynd i'r Aifft a Phalesteina. Bu'n gwasanaethu wedyn yn Ffrainc a Gwlad Belg ac fe ddaeth adref yn 1919 wedi gweld llawer o ladd ac erchyllderau eraill. Anaml iawn y soniai am ei helyntion yn y fyddin — ac eithro ar ambell nos Sadwrn wedi iddo fod yn y Lleng Brydeinig yng Nghaernarfon gyda'i gyfoedion yn y fyddin ac wedi cael mwy nag arfer i'w yfed. Ar amseroedd felly byddai yn sôn amdano'i hun fel 'Jones 3013; qualification: Bandsman'.

Wedi iddo ddod adref o'r fyddin ail-ddechreuodd weithio yn y chwael ac ymaelododd yn y Band unwaith eto. Cafodd ei ethol ar bwyllgor y Llyfrgell a'r Co-operative ac hefyd ar bwyllgor y Lleng Brydeinig. Roedd hefyd yn aelod o'r Rechabiaid, clwb a dalai ychydig o arian i'w aelodau pan oeddynt adref yn sâl o'r chwael. Arferai'r clwb ymdeithio drwy'r pentref ar Sadyrnau 'cyfri mawr' a chaed gwrthdaro rhyngddynt ag aelodau o glybiau eraill megis yr 'Oddfellows', ond roedd hynny wedi darfod erbyn cyfnod fy nhad.

Roedd pawb yn ei adnabod fel tipyn o gymeriad ac mae yna storïau lu amdano. Un adeg — â thyrfa fawr yn ei wyllo — aeth i ddangos i un o'i 'Jermans', sef bachgen o brentis, sut i naddu llechen yn sgwâr gan fod tueddiad gan y bachgen i naddu yn 'dingam'. Eisteddodd i lawr a dechrau naddu, ond sylweddolodd ei fod yn gwneud yr un camgymeriad ei hun. Fel mellten dywedodd, 'Fel'na rwyf ti'n naddu yli, mi ddangosa i iti rŵan sut i naddu'n iawn!'

(I'w barhau)

OWEN JONES, Llangefni

**Stori dda
dros yr ha'?**
Cofiwch yr 'Eco'

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

Cefnogwch Fusnesau Lleol

**CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451**


(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
**MASNACHWYR
A "D.I.Y."**
am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT**

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390



Rhai o blant Ysgol Dolbadarn newydd fod i ben y Wyddfa.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Eglwys Sant Padarn bnawn Mawrth, Mehefin 4ydd. Arweiniwyd y gweddïau gan Mrs Dilys Phillips a darllenodd Mrs Audrey Evans ran o'r Ysgrhythur. Cydymdeimlwyd â Mr a Mrs Gordon Parry, Hawarden, yn eu colled enbyd ym marwolaeth eu merch Siân. Anfonwyd cyfarchion am wellhad buan i Kelly Marie Williams, Coed-y-ddôl sy'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Cafwyd amser hynod addysgol a difyr pan gymerodd Mrs D. Phillips yr her o ddysgu gwaith 'cross-stitch' i'r aelodau. Gwnaed trefniadau terfynol y trip i Benbedw ar 11 Mehefin. Diolchodd Mrs Betty Williams i Mrs Hilda Williams a Miss Cathleen Pritchard am y te ac hefyd i Mrs Phillips am yr arddangosiad o waith y pwythau croes; ac fe eiliwyd y diolch gan Bet Hughes. Enillydd y raffl oedd Mrs D. Phillips.

Darlithydd: Llongyfarchiadau i Bryn Jones, Dôl Elidir, ar ei benodi yn Ddarlithydd yn Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru, Bangor. Bu Bryn yn ddirprwy-brifathro yn Ysgol y Gelli, Caernarfon am gyfnod. Dymunir yn dda iddo i'r dyfodol.

Capel Jerusalem: Yng nghyfarfod o'r Gyfeillach, a gynhaliwyd ar 7 Mai, cafwyd hanes ymweliad a gwlad Israel gan y Parchg a Mrs H. Gwynfa Roberts, a chafwyd pnawn difyr ac addysgiadol iawn. Yn dilyn y sgwrs cafwyd paned o de. Fe drefnir pnawn allan yn ystod dechrau Mehefin. Bydd y cyfarfod nesaf, dan arweiniad Irfon Ellis a Robert Thomas, bnawn Mawrth, 2 Gorffennaf. Croeso cynnes i bawb.

Eisteddfod Llanberis: Gadawyd enw Mr Gareth Jones allan o'r adroddiad am yr Eisteddfod y tro diwethaf. Gareth oedd yn cyfeilio wrth gwrs, ac ar ben hynny bu'n brysur yn ymarfer canu gydag amryw o'r plant cyn yr Eisteddfod. Diolch iddo am ei waith caled eleni eto.

Capel Coch: Bydd trip yr Ysgol Sul yn ymweld â'r Rhyl ar Orffennaf 6. Mae croeso i gyfeillion ymuno â ni ar y bws.

Ysgol Feithrin: Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed eleni. Fel rhan o'r dathliadau mae pob Ysgol wedi mynd ati i lunio collage arbennig.

Mae plant hynaf Ysgol Feithrin Llanberis wedi gwneud eu rhan, ac mae'r gwaith yn werth ei weld. Bydd y plant hyn wrth gwrs yn gorffen yn yr Ysgol Feithrin yr haf yma ac yn symud i Ysgol Dolbadarn ym mis Medi. Dymunwn yn dda iddynt i gyd.



Plant yr Ysgol Feithrin efo'r brodwaith hardd.

Diolchiadau:

Dymuna Gordon a Gill Parry, Gwalia, 13 High Park, Hawarden, Sir Fflint, ddiolch i bawb am bob mynegiant o gydymdeimlad yn eu profedigaeth pan fu farw, yn frawychus o sydyn, eu hunig ferch annwyl Siân, chwaer, nith a chyfnither hoffus, a wyres addfwyn a ffyddlon Mrs Delia Parry, Plas Tiron.

Mae'r teulu yn ddiolchgar am bob cyfraniad ariannol a roddwyd tuag at Gronfa Ymchwil Epilepsi er cof am Sian.

Dymuna Rhian Rhagfyr a Sion Llwyd Elis, 10 Stryd Turner, ddiolch i bobl Llanberis a'r ardal am yr holl anrhegion a'r dymuniadau da ar ddiwrnod eu priodas ar yr 8fed o Fehefin 1996.

Dymuna Mrs Carrie Hughes, Ffordd Padarn, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a'r holl ffrindiau am eu caredigrwydd a'r llu cardiau, galwadau ffôn a'r blodau hardd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty. Diolch arbennig hefyd i Mrs Mattie Hughes a Mrs Ann Jones am eu

Cymorth Cristnogol: Casglwyd £481.45 yn Llanberis a Nant Peris yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad hwn ac yn arbennig i'r rhai fu'n casglu o ddrws i ddrws.

Lleisiau Lliwedd: Bu Lleisiau Lliwedd yng Ngwesty'r Fictoria nos lau, Mehefin 6ed, a chyflwynwyd cloc llechen hardd a blodau i ddwy aelod o'r parti, sef Mrs Megan Hughes a Mrs Carys Hughes. Cafwyd noson ddifyr iawn a lluniaeth ardderchog, a phawb wedi mwynhau eu hunain.



Mrs Mattie Hughes, Arweinydd Lleisiau Lliwedd yn cyflwyno rhodd i Mrs Megan Hughes a Mrs Carys Hughes.

caredigrwydd iddi tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddi ddod adref. Diolch yn fawr iawn i staff Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, a diolch hefyd i bawb ym Mron Eryri.

Llongyfarchiadau i Jason Jones a Dawn Whitehead ar eu dyweddiad, oddi wrth y ddau deulu.

Ysgol Dolbadarn: Bu plant blwyddyn chwech yn Ysgol Brynrefail yn gweld cynhyrchiad 'Ffeirio' Cwmni'r Frân Wen, oedd yn delio â'r profiad o

symud o un ysgol i'r llall. Buont ar eu hail ymweliad â'r ysgol hefyd yr wythnos hon yn cael blas ar fywyd Brynrefail. Cafodd holl blant yr Ysgol drip ar y trê'n i ben y Wyddfa ddydd Mercher, Mehefin 12. Cwmni'r Rheilffordd ddarparodd y trip yn rhad ac am ddim fel rhan o'i dathliadau canmlwyddiant.

Bu nofwyr yr Ysgol yn llwyddianus yn y Gala yng Nghaernarfon gan ddod yn ail yn y gystadleuaeth.

Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus ar fuarth yr Ysgol nos Wener, Mehefin 21. Diolch am y gefnogaeth dda.



Ian Williams yn cael paentio'i wyneb yn Ffair Haf yr Ysgol.

MAE ANGEN ARWEINYDD a CHYNORTHWYDD (DWY SWYDD)

Ar gyfer Meithrinfa'r Cwrs Cymraeg a gynhelir yn Angorfa, Llanberis 6 awr yr wythnos (Mawrth a Gwener)
Am ragor o fanylion cysylltwch â
CYNTHIA OWEN
(01248) 364008

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Geraint Davies, Dôl Gwyrfa, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Elinor Katie, i'w merch Siân a'i phriod Graham.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Eleri Jones, Bron Eifion, ac i Heddu Gwynedd, Nant, ar gyrraedd eu 18 mlwydd oed a dymunwn y gorau i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

Bu Miss Jennie Jones, Bryn Tirion gynt, yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 93 mlwydd oed; a bu Mrs Williams, Dwyfor, yn dathlu ei phen-blwydd yn 97 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddwy ohonoch.

Yr Ysgol Sul: Llongyfarchiadau i blant y ddwy Ysgol Sul a dderbyniodd docyn llyfr am ddysgu adnoddau yn y Gymanfa a gynhaliwyd yng nghapel Seilo brynhawn Sul, 9 Mehefin.

Arddangos Mewn Sioeau: Er mai 'Scruff' yw enw ci Sara Lloyd Williams, Gwastadfaes, maen rhaid nad yw yn debyg i'w enw gan ei fod yn llwyddiannus iawn yn y sioeau amaethyddol y mae Sara yn ei arddangos, gan dderbyn gwobr yn aml.

Croeso Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Parry Williams, Gwynfa, Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, a Mr John Elwyn Roberts, 24 Bro Waun, adref o'r ysbyty, gan obeithio y byddant yn gwella'n fuan. Anfonwn ein cofion at bob un o'r pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Ar Daith: Dymunwn y gorau i Gwenan Jones, Glyn Ceris, ac Elain Owen, Glyn Awel, ar eu taith i'r America gyda thim pêl-droed merched gogledd Cymru.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Mr Eric Jones, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Roeddem yn falch o glywed gan ei mham fod Fflur yn gwella yn yr ysbyty a hyderwn yn fawr y bydd y ddau ohonoch yn gwella'n gyflym ac yn cael dod adref i fwynhau'r tywydd braf rydym yn ei gael ar hyn o bryd.

Gwyliau'r Haf: Mae'n wyliau haf i'r Eco. Daw'r rhifyn nesaf o'r Wasg ymhen deufis — os bydd gennych newyddion neu ddigwyddiadau i'w cofnodi yn yr Eco dewch a nhw i mi, os gwelwch yn dda. Dymunwn wyliau haf braf i bawb a chymerwch ofal ar y ffordd, blantos.

Y Grŵp Almanac: Mae'n amlwg fod y grŵp Almanac yn mynd o nerth i nerth ac yn brysur iawn gyda'u perfformiadau. Da iawn chi, a phob dymuniad da ichi i'r dyfodol a gobeithiwn y bydd eich CD newydd, 'Baich', yn gwerthu fel slecs.

Adran yr Urdd: Cafwyd blwyddyn lawn a difyr yn yr Urdd eto eleni. Ymhlith y gweithgareddau wythnosol roedd gwaith llaw, chwaraeon, gwisg ffansi, carioci, nofio, ymweld â swyddfa'r post, sgysiau gan yr awdures Mair Wynn Hughes a sgwrs gan Warden Parc Padarn a chynrychiolydd Cadw Cymru'n Daclus; a llawer o bethau eraill.

Diolch i Joy, y llywydd; Shirley, y trysorydd, a holl aelodau'r pwyllgor, yn enwedig y genod sy wedi bod yn ffyddlon bob wythnos i helpu a gofalu am y plant.

Bu'r plant yn brysur yn cystadlu yng nghystadleuaeth y gân actol yn Eisteddfod yr Urdd eto eleni. Diolch i Anti Jina, Anti Caroline, ac eraill, am hyfforddi'r plant; i Delyth ac eraill am baratoi'r gwisgoedd hyfryd; ac i Sioned ac Ann Elfyn am goluro. Ni chafwyd llwyddiant eleni ond gwnaeth y plant yn wych iawn. Mae llawer ohonynt yn ifanc iawn a chredaf fod gennym dîm addawol iawn ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd llwyddiant eleni yng nghystadleuaeth tâp sain, ac fe enillodd grŵp o dair, sef Sarah Owen, Sara Roberts a Fiona Sanderson, y wobwr gyntaf gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniad. Oherwydd eu llwyddiant enillodd y genod y Tlws Llenyddiaeth i Bentrefi ac fe aeth y dair ar y llwyfan yr eisteddfod i dderbyn y Tlws.

Bu nifer o blant y Waun yn cystadlu yn y mabolgampau'r cylch eleni. Wedi ymarfer brwd am bythefnos cyn yr achlysur ac ar y noson gwnaeth y plant i gyd eu gorau glas. Bydd leuan Parry yn cynrychioli'r Adran yn y mabolgampau a gynhelir ym Mhorthmadog ddiwedd Mehefin.

Aeth nifer o blant Bl. 5 a 6 i Glanllyn am benwythnos yn niwedd Ebrill. Diolch i'r ddau oedolyn dewr, Rhian Evans ac Eifion Glyn, am fynd i edrych ar eu hôl.

Bydd cyfarfodydd yr Urdd yn ail-ddechrau ym mis Medi. Croeso i unrhyw blentyn rhwng 7 ac 11 oed,

ALMANAC



Drwy iddynt gael llwyddiant gyda'u tâp cyntaf 'Rhy Hwyr' mae Almanac yn rhyddhau CD a chaset newydd, sef 'Baich' ar 5 Gorffennaf.

Ar y CD c'er saith cân, sef 'Torri'n Rhydd', 'Baich', 'Gweld y Gwir', 'Trwy dy lygaid di', 'Gofyn am ryddid', 'Hei, ti' a 'Geiriau ffôl'.

Mae'r caneuon i gyd wedi eu cyfansoddi gan y band, sef Ellen Roberts, Sion Llwyd, Eilir Jones a Deian Elfryn.

Wedi iddynt chwarae mewn gwyl a gynhaliwyd yn y Snowdonia Parc, Waunfawr, ar 15 Mehefin, ac wedi ymddangos ar 'Uned 5' mae'r band yn mynd i fod yn brysur iawn yn

ystod misoedd Gorffennaf ac Awst i hybu'r CD mewn gigs.

Mae'r band yn chwarae yn y mannau canlynol: Tafarn y Rhyd, Llangoed, Gorffennaf 5; Sesiwn Fawr Dolgellau, Gorffennaf 20; Clwb Pêl-droed Bethesda, Gorffennaf 21; Snowdonia Parc, Waunfawr, Awst 3; Clwb y Gwernllwyn, Abertawe, Awst 5.

Yn ystod y ddau fis mae mwy o ddyddiadau ar hyn o bryd yn cael eu trefnu fel yng Nghaerdydd, Y Felinheli, Caergybi ac yn Llangefni. Felly, os ydych am gysylltu a'r band ffoniwch Deian ar (01286) 650564 neu Sion ar (01286) 678653.

a hefyd i blant fydd yn cael eu pen-blwydd yn 7 oed cyn y Nadolig. (Ar ôl y Nadolig estynnir croeso i'r plant fydd yn 7 oed cyn y Pasg.) Rydym hefyd yn croesawu plant blwyddyn gynta'r ysgol uwchradd os dymunant barhau yn aelodau am flywyddyn.

Cymorth Cristnogol: Cyfanswm y casgliad eleni oedd £336.50 (cynnydd o £88.50 ar 1995). Dymuna'r trefnydd, Mr O. T. Jones, ddiolch i'r casglyddion am eu parodrwydd i gasglu'r arian, ac i'r pentrefwyr am eu haelioni.

Cronfa Cancr MacMillan: Mae swyddogion ac aelodau'r pwyllgor

yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am gasglu o dŷ i dŷ yn ddiweddar, ac hefyd i bawb a gyfranodd at yr achos teilwn hwn. Miss Marian W. Jones, 12 Dôl Erddi a Mrs Olwen Owen, Noddfa, Trefeilian: £56.60; Miss Ifanwy Rhisiart, Bod Afon: £49.73; Mrs Mair Parry, Deulyn, Stad Croesywaun: £40.46; Mrs Veronica Owen, Cil y Mynydd: £25.84; Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt: £36.47; Snowdonia Park Hotel: £10.02. Cyfanswm = £219.12

Dyma Mrs Catherine Jones, y trefnydd, ddiolch i'r holl gasglyddion am eu hymateb parod i'w helpu eto y flwyddyn hon.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Gwaith Da Ken



Mae galw mawr am lefydd parcio yn Llanberis yn ystod tymor prysur yr haf. Ac eleni eto bydd Y Ganolfan yn gallu elwa ar hynny drwy godi tâl am barcio ceir yn ei maes parcio.

Diolch am barodrwydd un gŵr i ofalu am y maes parcio, bydd arian da yn dod i goffrau'r Ganolfan. Mae Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn, yn treulio rhan helaeth o bob diwrnod dros fisoedd yr haf wrth y gwaith hwn. Y llynedd casglodd dros £2,500, ac eleni y mae eisoes wedi casglu £700, ac mae'r prysurdeb mwyaf i ddod eto wrth gwrs. Fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Llanberis ar bwyllgor y Ganolfan ers 1973 mae Ken Jones yn ymwybodol o'r angen am arian i gynnal y Ganolfan.

Bu Ken yn aelod o'r Cyngor Cymuned ers 23 mlynedd a bu'n gadeirydd arno ddwywaith. Ac yntau wedi bod yn aelod o is-bwyllgor y fynwent ers 17 mlynedd mae'n eithriadol falch bod y gwaith o ehangu'r fynwent yn Nant Peris yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae hefyd wedi cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Dolbadarn ers 11 mlynedd.

Mae'n rhaid ei fod yn mwynhau'r her o godi arian, y

llynedd casglodd £2,450 mewn pythefnos er mwyn cynnal gweithgareddau Cofio Dyddiau VE a VJ, pan drefnodd dderbyniad a chyngerdd ar gyfer 104 o wŷr a gwagedd a fu'n aelodau o'r Lluoedd yn ystod y rhyfel diwethaf. Dau fudiad arall y rhoddodd wasanaeth da iddynt dros y blyneddau yw'r Clwb Pêl-droed a'r Carnifal. Mae'n aelod anrhydeddus am oes o'r Clwb Pêl-droed ar gyfrif ei wasanaeth fel aelod o'r pwyllgor ers 1959. Mae'n debyg mai ef oedd yn bennaf gyfrifol am y syniad o gael Wythnos Carnifal yn Llanberis. Yr oedd yma garnifal cyn hynny, ond mentrodd ef a phwyllgor y Clwb Pêl-droed ar y pryd lansio wythnos o weithgareddau yn dechrau efo Noson o Gân ac yn gorffen hefo'r carnifal ei hunan.

Mae'n amlwg ei fod wrth ei fodd yn cyfarfod hwn ac arall yn y maes parcio, a gwerthfawrogi ei barodrwydd i roi cymaint o'i amser er mwyn y Ganolfan.

BERT PARRY

Dinorwig y Gorffennol

Bydd darluniau o'r gorffennol i'w gweld yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, o Orffennaf 8 hyd at Fedi 1.

Daw'r darluniau — tua 100 i gyd — o gasgliad preifat o ffotograffau Mr Gwilym Williams o Ddeiniolen. Mae'r arddangosfa wedi ei pharatoi er cof am ei dad, W. H. Williams (Wil Tate) a fu farw yn gynharach eleni, ac a fu'n gweithio yn y Chwarel am 43 o flynyddoedd.

'Dechreuais gasglu'r ffotograffau yn 1968 oherwydd eu bod yn dangos rhan mor bwysig o fywyd yr ardal hon,' meddai Mr Williams, a adweinir fel Gwil Tate yn ei gynefin.

'Hefyd, roedd fy nhad a'm tri brawd yn gweithio yn Chwarel Dinorwig ac felly mae'r lechen wedi bod yn rhan o'm bywyd ers fy mhentyndod,' meddai.

Yn wir mae'r diwydiant llechi yn dal i fod yn rhan bwysig o fywyd

Gwilym Williams. Trodd ei hoffter at arlunio â llechi yn waith llawn-amser ugain mlynedd yn ôl ac mae nawr yn gweithio o'i weithdy yn ei gartref yn Neiniolen ac o'i siop, Crefft Elidir, ym Mharc Padarn, Llanberis.


'Rwyf wedi dysgu'r cyfan fy hunan,' meddai, 'gan ddechrau trwy bantio lluniau adar a bywyd gwylt a datblygu yn raddol nes fy mod erbyn hyn yn paentio amrywiaeth eang o luniau, hefyd cerfio enwau tai, coasters, a chlocciau.'

Mae'r busnes bellach wedi ei sefydlu gyda chrefftau llechen Gwilym yn boblogaidd iawn ac yn rhoi boddhad mawr iddo.

'Mae'n braf meddwl fod fy nghreffftwaith yn golygu y caiff darnau bychain o Gymru i gartrefi ym mhob rhan o'r byd,' meddai.



Tudur Jones, Swyddog Arddangosfeydd yr Amgueddfa Llechi a Mr Gwilym Williams yn paratoi'r Arddangosfa.



Glywsoch chi am y cwpl o Ddeiniolen gafodd eu deffro ganol nos gan y ci. Nid eisiau mynd allan i'r ardd yr oedd o, ond swian am gael gorwedd dan y 'gwely haul' newydd. Dydi'r ardd dim 'Patch' i'r gwely haul!

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd **Rolls Royce** ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Cerrig Beddau

Glanhau y Garreg
ac
Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris
(01286) 830041

Emyr Jones

PLYMAR
A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513



E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GWADNU gan Y Gwalch

Hyd yn oed yn gynnar yn y pumdegau doedd y crwydr yn a'i fag a'i biser bach ddim wedi llwyr ddiplannu oddi ar y ffyrdd. Roedd ei rengoedd erbyn hynny yn cynnwys cyn-filwyr, fel ar ôl pob rhyfel; rhai yn ei chael hi'n anodd setlo ar ôl y blynyddoedd blin a chael eu helcyd hyd y byd — athrylithion rai — nad oedd gan y Sefydliad unrhyw ddiben i'w talentau ond i ddinistrio. Bwm yn eu mysg, ond doeddwn i ddim wedi graddio yn ddigon uchel yn y grefft i adael arwyddion y frawdoliaeth ar dai na 'chwaith eu dehongli. Roedd y wybodaeth honno yn hanfodol i wybod p'r un â'i panaid o de ynteu ci brathog oedd yn ein disgwyl. Ond tipyn o dwyllwr oeddwn i a dweud y gwir: roedd gen i gartra i fynd iddo.

Wrth gwrw roedd y *casual ward* yn dal i fynd, yr hen wyrwys, lle gellid cael gwely a brecwast am swllt, caniatáu fod rhywun yn gwneud rhyw swydd fel ysgubo neu dorri prisiau tân cyn ymadael. Ond doedd o ddim wedi ei restru fel anedd pum seren. Roedd y gwelyau mor agos nes yr oedd perygl i rywun roi ei law yng ngheg ei gymydog wrth ymestyn yn y bore, ac yr oedd y cyfleusterau arferol o'r math mwyaf cyntefig. Tap dŵr oer yn yr iard gefn oedd y bathrwm, a darn o sebon 'Lifebuoy'. Dim rhyfedd fod y rhan fwyaf o'r gwesteion yn osgoi'r ddefod.

Roedd y sefydliadau yma yn y trefydd, ac wedi cau hyd chwech yn y nos, a pheth cyffredin oedd gweld rheng y tu allan yn disgwyl yr awr honno, yn y rhew a'r barrug. Yn ystod y dydd yn y gaeaf byddent yn llercian yn y siopau cynnes, ac yr oedd y llyfrgell yn lloches ddelfrydol. Gallaf dystio fod honno yn ninas Worcester yn glud a chysurus. Doedd y rheol ynglŷn â chysgu ac ar adegau weidi drwy ei hun, ddim mewn gweithrediad yr adeg honno.

Roedd caniatâd i aros am dair noson yn y 'spikes', wedyn byddai yn rhaid ei gwadnu hi sut bynnag y byddai'r tywydd, a chan fod y sefydliadau yma yn aml daith diwrnod oddi wrth ei gilydd, byddai rhai yn cael ei goddiweddyd gan y nos a'r ddrycin, ac yn cael eu gorfodi i chwilio am unrhyw loches orau y gallent. Ar adegau felly, doedd o ddim yn fywyd i'w gymeradwyo.

Byddai rhai yn gwneud gwaith achlysurol am gyfnodau yn yr haf, ac yn y cyswllt hwn roedd gen i fantas

ar y rhan fwyaf o grwydrwyr cefn gwlad. Roeddwn yn gynefin â gwaith y tir: godro, trin ceffylau, lladd a phluo dodfenod, hyd yn oed sticio mochyn pe bai angen, ond mewn cyfweiliad am y math yma o swydd, roedd hi'n llawn cystal ceisio celu'r ffaith fod rhywun wedi dod yn syth oddi ar y lôn. Bu gallu coginio fy CV yn foddion i mi gael y swydd honno ar fferm ym mherfeddion Sir Caerwrangon, a llawn cystal hynny, roedd tramps yn anathema gan y giaffar, 'thum thur roadsters', chwedl yntau.

Fferm gwartheg stôr oedd hi am y mwyaf, ond roedd yno fuches fechan hefyd, a fy ngwaith ddwywaith y dydd oedd godro rheiny a chludo'r llaeth i ochr y ffordd ar gyfer y lori.

Rhyw gymysgedd o ffarmwr a phorthmon oedd yr hen Wallace. Byddai yn gwisgo rhyw hen slop frown a gadwai yn ystafell yr harnis, a doedd o ddim yn hynod o fore godwr, ac yn tueddu i ddisgwyl braidd gormod gan ei wraig a oedd yn un dda am fywyd, mae'n rhaid cyfaddef. Roedd iddynt un mab, Jac, tua fy oed i. Roedd gwendid diffyg trael ganddo; clwy a oedd yn ei rwystro stumogi gwaith hefyd. Roedd yn ceisio dweud fod yr anghaffael wedi ei gadw rhag mynd i ryfela, ond rwy'n credu mai llechu ar y tir a wnaeth. Byddai yn cymowta yn ei gar mewn clôs a legins sglein, ond fyddwn i'n cymryd fawr sylw o'i rodres.

Un bore o hydref roeddwn yn dychwelyd heibio i stand y can llaeth ar ôl danfon hwnnw i'r lôn, ar fy ffordd i farbio drain yn y caeau. Beth welais wrth nesáu oedd dyn a'i ben yn y can yn yfed fel ŷch. Pan sythodd ar fy nyfodiad gwelais mai trempyn ydoedd, ac hyd yn oed yn y frawdoliaeth honno yr oedd yn amheuthun.

Roedd ganddo fwstas fel brws beudy, a'r hufen yn diferu oddi arno. Sythodd hwnnw â'i lawes a rhoi ei het galed ddu am ei ben. Roedd honno braidd yn dod dros ei aelau gan ei wneud i ymddangos yn fyrrach nac ydoedd. Roedd yna felt webin yn tynnu ei gôt laes, ddu yn dynn amdano, ac o hwnnw crogai padell ffrio, ac yr oedd ganddo heblaw ei fag, ambarél mawr. Buasai'n hawdd i'r anghyfarwydd feddwl eu bod wedi cyfarfod â

shaman o wastadedd Mongolia.

Doedd gen i ddim calon i'w geryddu. 'Wyddwn i ddim pa mor fuan y byddwn innau yn falch o wneud yr un peth fy hun. 'Dydw i ddim wedi cael tamaid ers ddod,' meddai.

'Plesia dy hun,' meddwn i. 'Ond mae'r llefrith yna i fod yn lân ac yn saff.'

'O, wela i,' meddai, gan droi ar ei sawdl a cherdded i ffwrdd dan fwmian, 'Glân a saff, glân a saff.'

Roedd o yno wedyn drannoeth, fel jac-do wedi ei ddrwg arfer, a gwyddwn y byddai a'i ben yn y can cyn gynted y buaswn wedi troi fy nghefn. Gwahoddais o i ddal ei biser a thywalltais gryn beint iddo. Wedyn daeth hynny yn ddefod ddyddiol, ond ychydig oedd ganddo i'w ddweud, ac yr oeddwn yn dyfalu ym mhle yr oedd yn daearu. Erbyn hynny roeddwn yn gofalu am ei frecwast hefyd ar ffurf creision o 'flake maize' o finniau'r gwartheg, a scraps o'r tŷ oedd i fod i'r moch, a hyd yn oed rhyw sleisen slei o gig y theiny yn achlysurol ar gyfer ei badell.

Mae cynhesrwydd yn beth mawr fel agoriad i feddyliau. Pan oeddwn yn llosgi brigau yn y cae rhyw fore, gwelais o'n cyrchu at y tân. Daliodd ei freichiau ato a daeth yn siaradus, a hynny heb i neb ei holi. Erasmus Cross oedd ei enw, wedi bod yn gyfrifydd meddai. Ar ôl iddo ddo yn ôl o'r rhyfel, ail-afaelodd yn ei waith a phrynu byngalo ar forgej. 'Roeddwn i'n meddwl mai dyna oedd y ffordd orau i ddenu gwraig,' meddai. Ond doedd gan y merched fawr o ddiddordeb ddyliwn, ac aeth dwy a thair blynedd heibio ac yntau yn dal yn hen lanc. 'Roeddwn wrthi yn galed yn y swyddfa,' meddai, 'i gyfarfod y morgej, ac nid hynny yn unig. Canfyddais fod rhai yn ennill llawn cymaint ag yr oeddwn i eisiau crogbris am wneud rhyw fân swyddi imi yn yr ardd neu o gwmpas y lle, ond beth a roddodd foliad i mi yn y diwedd oedd y ddynes a ddeuai i lanhau i mi. Roeddwn i'n meddwl fy mod i'n talu cyflog di-fai iddi, ond doedd hynny ddim digon yn amlwg; nid i gadw ei theulu rhag llwgu, cofia, ond i fynd i'r Costa del Sol — braint na fedrwn i ei fforddio heb edrych yn llygaid pob ceiniog. Rhyw fore daeth trempyn at fy nrws ac yn lle ei droi draw, fel yr oedd f'arferiad cynt, gwahoddais o i mewn am bryd o fwyd, ac erbyn cael ei hanes roedd o wedi bod ei hun mewn sefyllfa pur debyg i f'un i. Rhoddodd hynny y syniad yn fy mhen i. Cefais fadael â'r tŷ a'r swydd, a dyma fi.'

'Lle rwyd ti'n cysgu'r nos ar y barrug 'ma?'

'Mewn rhyw hen gwt cipar mewn coedlan i lawr y lôn yna. Does gen ti ddim lle gwell i mi, debyg?'

'Fasat ti'n licio dod i fyw ata' i a rhoi pen arni?' gofynnais.

'O, na faswn i byth yn breuddwydio gneud y fath beth.'

'Wel, gofala bod y bobl wedi mynd o dan do, a dos i'r tŷ gwair yn y ffarm.'

Defnyddiodd Erasmus Cross y das wair yn llwyddiannus am gryn wythnos, ond un noswaith aeth ar ei ben i Jac yn dychwelyd o rhywle yn ei gar a bu cynwrf mawr yn y gwersyll. Daeth y giaffar a'r musus allan gyda lamp lachar, a galwyd

Nofel Newydd gan Y Gwalch

Mae nofel newydd Y Gwalch (John E. Williams) yn ymddangos o'r wasg yn ystod y mis. Ei theitl yw *Nes Adref* ac er fod yn ei gwead fedd ysbeilio a difrodiant piwma gwyllt sydd yn rhydd yn yr ardal, nid nofel gyffro mohoni. Yn hytrach mae'n ymwneud â helyntion y rhai a gaethiwyd ar gam yn ystod cyfnod y llosgi tai haf, pan oedd y Sefydliad rhwystredig yn ceisio dal Meibion Glyndŵr.

Mae'n darlunio mor hawdd yw i unigolyn diniwed ddod dan amheuaeth o fod yn gysylltiedig â therfysgwyr gwleidyddol, os digwydd iddo fod mewn lle amhriodol ar adeg anghyfleus.

Mae'r nofel hefyd yn dangos y dirywiad a fu yn y gymdeithas wledig, pan fo cymdogion yn ddieithriad llwyr i'w gilydd; fel yr eneth Hipi a ddaeth i fyw i hen dŷ'r cipar ar y ffridd er mwyn cael llonyddwch i astudio tyfiant gwyllt; a'r ferch arall, mor wahanol ei thrwsiad, o Quebec sydd yn aros ym Mhlas Iorwen, ac sydd yr un mor awyddus i ymchwilio i agweddau Celtaidd y fro er mwyn ei chyfres deledu yn Montreal.

Serch mai'r Meibion yw'r leitmotiv, maent yn aros yn elfen anelwig drwy'r rhamant; ffaith a all achosi i'r amheus goleddu'r syniad fod yr awdur wedi gochel dadlennu y cwbl a wya am ei bwnc.

Y cyhoeddwyd y Gwasg Carreg Gwalch, a'r pris £5.95.

arnaf innau o'm trigfan uwchben y ceffylau. Erbyn imi fynd i lawr i'r buarth roedd Erasmus wedi ei amgylchynnu gan y teulu, a oedd yr un ohonynt yn fwyn eu tŷmer, a'r cwbl oedd ganddo i'w ddweud fel amddiffyniad oedd ei fod wedi cael caniatâd i fynd i'r tŷ gwair gen i. Ar ben hynny roedd o'n gwisgo slop i giaffar o'r 'saddle room'. Beth yr oedd yn ei geisio hefo honno ni wn, ond yr oedd ei pherchenog wedi mynd yn lloerig. Trodd arnaf a gofyn, Beth wyt ti'n dod â rhyw fwan brain fel hyn i fy lle i, a rhoi fy nghôt i iddo fo?'

Doedd fawr o ddiben dadlau hefo dyn ar ei dir ei hun, ac wrth gwrw doedd gen i ddim achos o gwbl i sefyll arno.

'Gafael hi am y lôn 'na,' meddai wrth Erasmus, ac wrthyf innau. 'A dos ditha i'w ganlyn, ac os gwela i un ohonach chi o gwmpas y lle yma eto, mi rof i haels yn y'ch tinna chi.'

Cefais gyfle fodd bynnag i fynd i fyny'r grisiau i hel fy mymryn eiddo at ei gilydd. Erbyn hynny roedd Erasmus Cross wedi diplannu. Efallai fod yn llawn cystal iddo fod wedi gwneud hynny. Roeddwn yn teimlo am y munud fel rhoi ei badell ffrio ar ei ben.

Ar ôl cyrraedd y lôn, troais i'r chwith, fy meddyliau erbyn hynny ar ddim ond canfod lle i ddiddosi fy hun dros nos, ond ni fedrwn chwaith lai na chofio yn sydyn am yr hen ddywediad, 'Mwya yn y byd wnewch chi i'r rhai lleiaf...'

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Plaid Cymru: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen yn y Sefydliad Coffa nos Fercher, Mehefin 5, dan lywyddiaeth Phyllis Ellis. Cafwyd adroddiadau calonogol am waith y flwyddyn; llongyfarchwyd yr ysgrifennydd, Olwen Llewelyn, ar lwyddiant rhaglen amrywiol, a Meirwen Lloyd, y trysorydd, ar gyrraedd y cwota ariannol i'r pwyllgor rhanbarth. Diolchwyd hefyd i Cliff a Vera Williams am drefnu'r Clwb Cant. Ail-etholwyd y swyddogion am dymor arall, ac ychwanegwyd enwau newydd ar y pwyllgor. Bydd Phyllis Ellis a Berwyn Parry Jones yn cynrychioli'r gangen ar y Cyngor Cenedlaethol, gyda Paul Rowlinson yn ddirprwy.

Amlinellodd Dafydd Wigley ein sylw at y ffaith na chyfrifir Llanrug fel 'ardal wledig' gan y Swyddfa Gymreig wrth ystyried lleihau trethi i'r Swyddfa Bost a siopau'r pentref. Penderfynwyd ein bod fel cangen yn ymgyrchu i helpu busnesau lleol.

Enillwyr y Clwb Cant am fis Mai — 1, Megan Williams, Y Felinheli; 2, Beti P. Jones, Hafan Elan. Mehefin — 1, Raymond Jones; 2, Frank Green.

Y Carnifal: Bydd y Carnifal yn cael ei gynnal eleni ar ddydd Sadwrn 6ed o Orffennaf. Yn ystod yr wythnos bydd gweithgareddau fel a nodir yn y rhaglen sydd i'w gweld ar y dudalen hon.

Pwyllgor y Carnifal: Mae'r pwyllgor yn weithgar iawn eto eleni yn trefnu wythnos lwyddiannus fel y llynedd. Gwnaeth y Carnifal elw o £1,200 yn 1995 a'r siop ail-law £403.20. Mae'r cyfan wedi ei drosglwyddo i gronfa y Ganolfan Gymunedol. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb am eu cymorth a'u cyfraniadau.

Dymuniadau gorau i Mrs Ann Williams a Manon, Wenllys, Gwelfynydd, sydd yn ymadael â Llanrug am Fethel. Gobeithio y bydd y ddwy yn hapus iawn yno.

Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Hughes (mam Mrs Morfina Cadwaladr) sydd yn wael yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd.

Côr Clychau'r Grug: Mae'r Côr wrthi'n brysur yn difyrru'r ymwelwyr ar nosweithiau lau yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Roedd criw hwyliog a gwerthfawrogol iawn o'r diwylliant Cymreig yno ar Fehefin 6.

Bydd y Côr yno eto ar Orffennaf 4, ac Awst 22ain. Buan iawn bydd yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghaernarfon ar ein gwarthaf ac fe fydd y Côr yn cefnogi drwy gystadlu — felly mae sialens fawr o'n blaenau. Pob hwyl ar yr ymarfer.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Mehefin 11eg, trefnwyd trip hynod ddiddorol i Eglwys Clynnog gan orffen yn y Bistro, Nefyn. Anerchwyd a thywyswyd yr aelodau o gwmpas yr eglwys hardd a hynafol gan y Parchg Idris Thomas, a difyr tu hwnt oedd gwranddo arno'n traethu, mewn iaith goeth, am yr amser cynnar hyd y dyddiau hyn. Diolchwyd iddo am orig ddifyr ac addysgiadol gan Miss Megan Humphreys. Yr oedd bwydlen y Bistro at ddant pawb a swrth iawn oedd yr aelodau ar y ffordd adref! Anfonwyd cofion annwyl at yr aelodau sy'n derbyn triniaethau ac i bawb sy'n wael yn y gymdogaeth. Dymunwyd yn dda i'r holl bobl ifainc sy'n eistedd arholiadau o unrhyw fath, a llongyfarchwyd Gethin Parry ar ennill gradd ym Mhrifysgol Caerdydd. Diolchodd Mair Huws, ar ran y llwydd, Meirwen Lloyd, i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn. Diolchwyd i Mary Roberts a Megan Roberts am drefnu'r trip. Dymunwyd gwyliau haf dedwydd i bawb. Dewch atom yn llun ym mis Medi.

Newyddion o'r Ysgol Gynradd: Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mro Maelor, a diolch yn fawr i'r rhieni am eu cefnogaeth ar y dydd Mawrth a dydd Mercher. Diolch o galon i'r noddwyr a gyfrannodd tuag at gost y bws — Siop Trin Gwallt Elaine, Modurdy Hafod, Cwmni Cig Fferm Bryn Afon, Hughes Meats, Ffilmiau Bryngwyn, Ffilmiau Llun y Felin, Siop Sglodion, Siop Spar a'r Co-op.

Trefnwyd raffl hefyd i gasglu arian tuag at y daith i Wrecsam, a diolchwn i Seiont Manor a chwmni Part Co., am gyfrannu rhoddion. Bu rhai o'r rhieni yn brysur iawn yn gwerthu'r tocynnau raffl yn ystod noson pêl-droed Tlws Eco'r Wyddfa. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth. Enillwyr y raffl oedd: Dion Owen, Bethan W. Pritchard,



Aelodau Band Llanrug a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth mewnol y band yn ddiweddar.

Rebecca Owen, E. Beltini, Iona Williams, Rebecca Owen, rhif ffôn 677269, K. Jones ac R. Williams.

Mwynhaodd Bl. 6 gyflwyniad gan Gwmi'r Frân Wen yn Ysgol Brynrefail ddydd Mercher, Mehefin 12fed. Y pwnc dan sylw oedd 'Ffeiriau cyflogi morynion a gweision fferm 'slawer dydd' a chyplwyd hynny gyda'r profiadau newydd a gaiff y plant wrth newid ysgol.

Mehefin 13, daeth Prof. Dowe o Brifysgol Sydney, Awstralia, i'r ysgol am ddiwrnod. Mae'n gwneud ymchwil i ddysgu dwyieithog.

Ddydd Sadwrn, Mehefin 15, bu criw o'r rhieni yn gwerthu cacennau ar y Maes yng Nghaernarfon er mwyn codi arian i'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ym

mhob ffordd.

Braf iawn oedd cael croesawu Anti Margaret yn ôl i'r Ysgol. Mae Keith, mab Anti Margaret, wedi cael dychwelyd yn ôl i Ysgol Cwm-y-glo, ac wrth ei fodd bod yn ôl gyda'i ffrindiau unwaith eto.

Diolchiadau:

Dymuna Mrs Mair Jones, 24 Hafan Elan (Ogwen gynt) ddiolch o galon i'w pherthnasau, cyfeillion a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau a'r ymweliadau yn ystod ei harosiad yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd, ac am y caredigrwyd ar ôl dychwelyd adref.

Dymuna Mrs Elizabeth Roberts, London House, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da drwy alwadau ffôn cardiau ac ymweliadau tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Hefin Goronwy Jones, 37 Stad Glanffynnon, ddiolch i'w deulu, ffrindiau am y lluo o gardiau ac anrhegion a derbyniodd ar ei benblwydd.



Michelle Roberts a enillodd y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth Cerdd Dant yn Eisteddfod yr Urdd, Bro maelor.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646

CARNIFAL LLANRUG

GORFFENNAF 1 - 6, 1996

NOS LUN am 7 o'r gloch:

Ras Hwyl Noddedig o amgylch y pentref, o Dafrn Glyntwrog gan orffen yn Penbont (gwisg ffansi, oedolion yn unig)

NOS FERCHER am 6.30 o'r gloch:

Helfa Drysor. Cychwyn o Ysgol Brynrefail. Enwau i Owena Parry (01286) 872276 (ar ôl 4 p.m.)

NOS IAU am 7 o'r gloch:

Tombola yn yr Ysgol Gynradd. Canlyniadau'r Helfa Drysor troed.

DIWRNOD Y CARNIFAL — Sadwrn am 1 o'r gloch:

Cychwyn o faes parcio Penbont

Barbeciw, lluniaeth, Sêl Cist Car, Castell Neidio,

gêmau, rafflau, peintio wyneb

Beirniaid: Nia Williams ac Owen Arwyn (Rownd a Rownd)

Parti'r Carnifal yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon (Ffôn Lynda 01286 672881)

Yr elw tuag at y Ganolfan Gymuned.

Mae'r llwyddiant yn dibynnu ar eich cefnogaeth drwy'r wythnos.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go iawn ★

Codi Wal y Fynwent

Mae'r gwaith o ehangu mynwent Nant Peris yn mynd rhagddo dan ofal Cyngor Cymuned Llanberis. Mae'r Cyngor wedi prynu darn oi dir sy'n ffinio â'r fynwent, ac mae wal derfyn newydd yn cael ei chodi ar hyn o bryd. Gweithwyr Gwasanaethau Hyfforddi Gwynedd sy'n gwneud y gwaith. Cynllun hyfforddiant ar gyfer pobl di-waith yw hwn. Un o gynlluniau gwaith y Llywodraeth ydyw sy'n cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd.

Mae Mr Douglas Roberts, Deiniolen, wedi bod yn arwain y gweithwyr y tim ers wyth mlynedd bellach, a chyn hynny bu'n gwneud gwaith tebyg gyda'r Gweithlu Cymunedol. Bu ganddo gymaint ag 20 yn gweithio gydag ef ar un cyfnod,

er mai ond tri neu bedwar sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd. Mae'n gobeithio y bydd y nifer hwn yn codi eto i ddeg cyn bo hir. Mae'r gwaith yn y fynwent yn cael ei wneud gan Douglas Roberts ei hun a Barry Edwards o Gaernarfon, gyda chymorth hefyd gan Anthony Munro o Fethesda.

Mae'r cynllun yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i'r gweithwyr, a thros y blynyddoedd bu Douglas Roberts a'i dim yn gweithio mewn amryw o ysgolion Gwynedd yn atgyweirio a thacloso waliau ac yn paentio. Treuliwyd rhai wythnosau y llynedd yn Ysgol Dolbadarn yn paentio a thrwsio waliau. Cyn hynny gosodwyd palmentydd ar dir Ysgol Gynradd Llanrug a chodwyd wal o gwmpas adeilad yr Ysgol Feithrin ar fuarth yr Ysgol.

Mae Ken Jones, sy'n cadw llygad ar y gwaith ar ran Cyngor Cymuned Llanberis, yn falch iawn o safon y gwaith.



Douglas Roberts a Barry Edwards yn brysyr wrth y gwaith. Gyda hwy mae Ken Jones o Gyngor Cymuned Llanberis.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor. Ffôn: (01286) 870440

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

Llongyfarchiadau i Llinos Haf Jones, 10 Glanrafon Terrace, ar ei llwyddiant yn ennill gradd B.A. mewn Cymraeg a Llên y Cyfryngau ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Treialon Cŵn Defaid y Nant: Dewiswyd y treialon eleni i osod dau gwpan o eiddo Cymdeithas Treialon Gogledd Cymru. Enillydd Cwpan Rhiwlas oedd E. Wyn Edwards, Rhuthun (dosbarth agored); a John Ryan Griffith, Tal-y-sarn (ail ddosbarth) a gipiodd y Tlws er cof am y diweddar John Jones.

Daeth cystadleuwyr o dde Cymru a'r gogledd ac un ferch o Cumbria i ymgiprys yn y treialon. Gwelwyd mwy o gystadleuwyr nag erioed eleni ac hefyd griw ffilmio teledu.

Ail enillodd Ian Jones, Llanberis; Huw Morgan, Bethel, a Medwyn

Evans, Llanfachreth, y Tlwsau a enillwyd ganddyn y llynedd. Hynny fu hanes John Williams, Bethel; John Closs, Llanberis; a Dafydd Pritchard, Nant Peris yn ail ennill eu Tlwsau. Gerallt Jones, Waunfawr oedd enillydd Cwpan FMC — i'r gorau o dan 25 oed.

Roedd y ddau ddiwrnod yn rhai llawn cyffro ac fe hoffai'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r rhai a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant y Treialon. Gwerthfawrogi yn fawr iawn y cymorth a roddwyd gan yr ardalwyr.

Dyma restr y canlyniadau:

Dosbarth Agored (Cwpan y Brodyr Morris): 1, E. Wyn Edwards, Rhuthun (Joe); 2, Alan Jones, Pontllyfni (Jess); 3, Glyn Jones, Bodfari (Roy). **Ail Ddosbarth (Cwpan Wavell Roberts):** 1, John Ryan Griffith, Tal-y-sarn (Nel); 2, Medwen Evans, Llanfachreth (Meg); 3, E. Wyn Edwards, Rhuthun (Nip). **Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau, lleol, yn y dosbarthiadau Agored/Ail ddosbarth):** Dafydd Pritchard, Nant Peris. **Cwpan FMC (gorau dan 25 oed):** Gerallt Jones, Waunfawr. **Dosbarth Lleol (Cwpan Rheilffordd yr Wyddfa) (Cwpan Gwesty Dolbadarn):** 1, John Williams, Bethel (Jill); 2, John Closs, Llanberis (Bob); 3, Brian Owen, Llanberis (Spot); 4, Alan Roberts, Llanberis (Jess); 5, W. Arthur Williams, Bethel (Jab); 6, Donald Pritchard, Llanrug (Meg). **Cwpan R. Williams, Mynytho (gorau dan 25 lleol):** Huw Morgan, Bethel. **Tlws Cwmni Tithybarn (gorau dros 50 lleol):** John Closs. **Cwpan Llwyncoed (gorau dan 21):** Ian Jones.



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

40 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043 neu (01286) 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

ERIC JONES
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR




Joban Dda am Bris Rhesymol
Ffôn: 872421

WCW
a'i ffrindiau

Ym mis Medi, fe fydd cylchgrawn lliwgar newydd ar gael i blant o dan saith oed. Fe fydd hoff aderyn Cymru, WCW, yn cyflwyno llawer o'i ffrindiau o raglenni Slot Meithrin a llawer o ffrindiau newydd hefyd.

Fe fydd **WCW a'i Ffrindiau** yn cael ei gyhoeddi gan gwmni Golwg. Fe fydd rhifyn rhad ac am ddim ym mis Medi ac yna fe fydd ar werth o fis Hydref ymlaen, trwy ysgolion, cylchoedd meithrin a siopau Cymraeg.

★ Tacsï
★ Maes Awyr




Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffon:
(01286) 675754

CROESAIR GORFFENNAF



AR DRAWS

1. Os nad yw hi'n fawr, mae hi'n ddigon (5)
4. Dŵr heb fod yn ddwfn, ond nid felly'r llais (3)
6. Gwlad bell y dawnus (5)
9. Eiddigennu (10)
10. Aderyn bach coch golau? (4)
12. Yr arogl a ddaw o warws flêr ar ôl colli dechrau'r wythnos (4)
13. Wedi ei roi yn y lle anghywir. Y geiriau ar yr alaw? (10)
15. Rhai heb ddillad (7)
16. Un sy'n chwarae rhwng y cefnwyr a'r blaenwyr (7)
17. Reidio ceffyl y tu ôl i'r marchog (7)
19. Disgrifiadol o dâp magnetig ac iddo nifer o draciau cyfochrog (7)
21. Taffi Elin dda! mae'n anferth (10)
23. Brodor o 1 neu 6 ar draws, 2 neu 17 i lawr (4)
26. a'r 'ddraig goch gychwyn.' (4)
27. Hebog llwydilas (4,6)
28. Toi (5)
29. Un pydew yn cadw lindys (3)
30. Tynnu neu fwrw allan (5)

I LAWYR

1. Corsen (7)
2. Ynys y cathod, neu efallai'n fwy cywir, ynys y catho (5)
3. Ar ei ben ei hun (4)
4. Yr ogla drwg a wna Ben Mair (7)
5. Yr hyn a wna 4 i lawr, yn ogystal â drewi (5)
7. Un sy'n neidio i ddŵr, neu'n rhyfedd iawn, un sy'n llosgi (7)
8. Ceidw ŵr y tu ôl i'r stumps (7)
11. Hel i le na sydd dianc ohono (7)
14. Williams yr emynydd i'w ffrindiau (7)
17. Y wlad sy'n werdd yn ei chanol (7)
18. Metel wedi ei dynnu i ffurf cordyn (7)
19. Milyn (7)
20. Cyd-dynnu (7)
22. Hebddi, ni fyddai esgidiau'n bod (5)
24. Gorffwys am ysbaid (5)
25. O aros i edrych, wele gwt i weithio ynddo (4)



Abererch, sef: AERON Y SAIS AR EI HALLOR, A LLE DA I DRÊN DDYGYFOR, (Beris a'r LLAN, a'r trên yn tynnu'r tyrfaoedd yno.) I Jean yr â'r £5 mis Mehefin.

Mae thema yn gwau drwy groesair mis Medi hefyd, ond mae clw i bob un o'r atebion.

Ar ôl i chi ei gwblhau, wnewch chi lunio clw gwahanol i 17 i lawr, os gwelwch yn dda, a'i anfon at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 29 AWST.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

Dyddiadur y Mis

GORFFENNAF

1. Llun-6 Sadwrn
1. Llun
2. Mawrth
4. Iau
5. Gwener
6. Sadwrn

LLANRUG: Wythnos y Carnifal.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.
LLANBERIS: Cyfeillach Capel Jerwsalem am 2 o'r gloch.
CWM-Y-GLO: Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol yn cynnal Sioe Ffasiynau yn yr Ysgol.
BETHEL: Plaid Cymru — Helfa Drysor (ceir).
PENISARWAUN: Trip yr Ysgolion Sul. Cychwyn am 9.30 o'r gloch.
LLANBERIS: Trip Ysgol Sul Capel Coch. Cychwyn am 9 o'r gloch.
LLANRUG: Y Carnifal am 1 o'r gloch.
BRYNREFAIL: Cyfarfod Chwirydd y Capel — sgwrs gan y Parchg Harri Parri.
LLANBERIS: Ras y Wyddfa.
BETHEL: Cyfarfod Pregethu Capel y Cysegr — pregethir gan y Parchg Gwyn Erfyl am 10 a 2 o'r gloch.
LLANBERIS: Wythnos y Carnifal.
LLANBERIS: Noson o Gân yn Capel Coch am 7.30 o'r gloch.
BETHEL: Wythnos Gweithgareddau Bethel. Cystadlaethau pêl-droed 5-bob-ochr.
BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched — Barbeciw.
LLANBERIS: Y Carnifal am 1 o'r gloch.

11. Iau

13. Sadwrn

14. Sul

14. Sul-20 Sadwrn

14. Sul

15. Llun-Sadwrn

20. Sadwrn

RHODDION

£5: Joyce Jones a'r teulu, 10 Porth y Gogledd, Deiniolen; Rhian Rhagfyr a Siôn Llwyd Elis, 10 Stryd Turner, Llanberis.

£2: Mrs Carrie Hughes, Ffordd Padarn, Llanberis; Jason Jones a Dawn Whitehead, Llanberis.

£1: Mrs Jones, 24 Hafan Elan, Llanrug.

AT HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA BRYN, CWM-Y-GLO

Carem fel teulu ddiolch yn ddiffuant iawn i chwi, yn deulu, ffrindiau a holl drigolion bro'r Eco am eich caredigrwydd arbennig i ni yn ystod gwaeledd Keith. Gwyddom eich bod, fel unigolion a mudiadau, wedi ein cefnogi'n hael iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Bellach mae'r driniaeth drosodd a braf yw cael dweud fod Keith wedi dychwelyd i'r ysgol ac yn cryfhau yn ddyddiol. Diolch hefyd i'r meddygon lleol ac am ymroddiad diflino Nyrs Eleri Fôn Roberts (nyrs McMillan).

Rydym yn awr yn edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol, gyda'r sicrwydd fod dymuniadau gorau cymaint o ffrindiau yn parhau i'n cynnal.

Diolch o galon i bob un ohonoch am eich cefnogaeth i ni.

MARGARET, GWILYM, CARYS, TERRY
ac, wrth gwrs, KEITH ei hun.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau a benchyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen, gyda stamp a chyfeiriad arno, i'r Ysgifennydd:

**John H. Hughes,
Tan y Clogwyn, Llanberis
Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: (01286) 871562**

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn
Awst 31ain 1996

NI YSTYRIR UNRHYW GAIS A DDAW I LAW AR ÔL Y
DYDDIAD CAU PENODEDIG

CHWARAEON


100 milltir yr awr?

Mae rhedeg clwb chwaraeon heddiw yn gostus iawn ac yn cymryd llawer o lafur cariad i gadw'r drws ar agor, ac mae'r raffl, pêl-fonws, ac ambell ddisgo yn gyfarwydd i nifer o glybiau. Y mae darganfod 'noddwyr' yn ddigwyddiad ffodus iawn ac yn aml rhoi yn ddistaw a wna'r noddwyr hyn.

Yn anffodus ni ddaeth yr un geiniog i Ogledd Cymru yn y rhaniad diweddaraf o 'Sbortlot' a gwn fod ambell glwb lleol wedi cael eu trafod, ond mae'r angen i godi hyd at 30% o'r cyfalaf yn faen tramgwydd i nifer o'r clybiau hyn.

Mae 'na un noddwr 'enwog' o'r ardal wedi mentro i'r adwy a hynny ym myd rasio beiciau modur. Y bonwr yw Bryn Williams (Bryn Taff) o Lôn Groes, Llanrug, ac y mae o a Ken ap Tomos, Penrhyndeudraeth, yn noddi y rasiwr Meredydd Owen o Frynteg, Môn. Mae gwreiddiau Meredydd ym mro'r Eco a chysylltiadau teuluol â'r Waunfawr. Bu Meredydd yn rasio bellach ers naw mlynedd ac mae wedi teithio cryn bellter i gystalu. Yn ffodus mae yna ddau gwrs safonol yma yng Ngwynedd ar hen wersylloedd milwrol Tŷ Croes, a Thonfannau. Cwrs Tonfannau yw'r ffefryn ganddo gan iddo ennill pencamwriaethau 1995 ac 1996 yno. Bu hefyd yn cystadlu ar gyrsiau enwog Mallory Park ac Oulton Park. Ei drip pellaf oedd i Knockhill yn yr Alban i gipio'r ail wobwr yn Ras Coffa Bob McIntyre. Atyniad mawr y byd rasio beiciau modur yw Ynys Manaw ac fe fu Meredydd yn cystadlu yn y Senior Manx Grand Prix, ond yn anffodus fe dorrodd y beic i lawr ar ôl cychwyn da. Beic Seeley G50, 500 sengl, sydd gan Meredydd ac yn ystod ei 'ras fer' ar Ynys Manaw roedd yn cylchu ar gyfartaledd o

92 m.y.a. gyda chyflymdra uchaf o 135 m.y.a. Bydd Meredydd yn ôl yn cystadlu eleni ar gwrs enwog y TT a'i uchelgais yw gorffen y cwrs enwog hwnnw gan geisio cael cyflymdra a chyfartaledd o 100 m.y.a. Yn amlwg mae'n drindod penderfynol a dymunwn pob lwc iddynt draw ar yr Ynys.



Meredydd — a'r Ddraig Goch — yn chwyrlïo o gwmpas cwrs y TT ar Ynys Manaw.

Mynydda



Bwriada Iolo Jones, o Glwb Mynydda Bethesda, gymryd rhan yn y sialens 'Bob Graham Round' sydd i'w chynnal yn Ardal y Llynnoedd yn ystod mis Awst eleni.

Hyd y cwrs yw 70 milltir a bydd yn rhaid teithio dros 42 o fynyddoedd sy'n cynnwys Scafell Pike (3206tr.), Helvellyn (3116tr.), a Skiddaw (3053tr.) Rhaid fydd cwblhau'r cwrs mewn llai na pedair awr ar hugain.

Bob Graham oedd y gŵr cyntaf i gyflawni'r gamp yn 1932 ac mae yna bron i 800 o ymgeiswyr wedi cwblhau'r cwrs ers hynny.

Bydd Iolo yn casglu arian at Uned Cancr, Ysbyty Gwynedd, ac fe ellwch ei gefnogi drwy gysylltu ag ef ar (01248) 600491.

Ers cymryd swydd Golygydd Chwaraeon yr Eco'rwyf wedi teimlo bod llawer agwedd ynghlwm â'r gwaith. Yr hawsaf yw cronicle digwyddiadau; yr ail yw mynegi barn — a hynny'n greadigol, gobeithio; ac yn drydydd, teimlad bod dyletswydd arnaf gronicle a meithrin talent ieuainc ym myd y chwaraeon.

Tybed, ymhen blynnyddoedd, a fydd yna rywrai yn darllen ol-rifynnau o'r Eco i ddarllen am gefndir a hanes cynnar Colin Jones neu Alun Vaughan, y rhedwyr Olympaidd; neu Eifion Jones, y pêl-droediwr rhyngwladol. Gobeithio nad oes neb yn meddwl ei bod yn hyfforddwr arnaf i awgrymu hyn, ond weithiau teimlad nad ydym yn ymfalchïo digon yng ngorchestion rhai o'r ieuenctid yma. Plwyfol yn aml yw'r ymateb.

I fyd criced y trof y tro hwn i sôn am fachgen lleol sy'n dechrau tynnu sylw ato'i hun. O Gaethro y daw Tom Evison, sy'n 12 oed, ac yn ddisgybl yn Ysgol Syr Hugh Owen. Bydd y cyfenw yn gyfarwydd i ddilynwyr pêl-droed yr ardal gan fod Peter, ei dad, wedi bod yn gefnwr i dîm y Darans yn ystod y 70au. Ers y cyfnod hwnnw bu Peter yn gricedwr o fri gan gynrychioli yn eu tro Bangor, Sir Gaernarfon a Gogledd Cymru. Mae llawer yn tystio am dechneg sicr Peter fel batiwr. Mae Peter a minnau yn hyfforddwyr criced trwyddedig a braf yw gweld oddeutu 50 o blant ar faes Clwb Bangor ar nos lau, ac mae yno garfannau — 12, — 14 a — 16, ac fe fydd croeso i unrhyw blentyn o oedran ysgol uwchradd yno.

Yn ôl â ni at Tom . . . batiwr llawchwith yw Tom ac mae eisoes yn chwarae yn rheolaidd i dîm — 16

Rygbi yng Nghaernarfon

Wedi taith tim cenedlaethol Cymru i Awstralia mae'r amser wedi dod i baratoi ar gyfer tymor 1996/97 yng Nghymru, gan gynnwys Clwb Rygbi Caernarfon. Yn barod mae hyfforddiant ac ymarfer ar gyfer chwaraewyr wedi dechrau bob nos Lun a nos Fercher rhwng 7 a 9 o'r gloch ar y Morfa, ger Ysbyty Eryri. Ar gyfer yr ieuenctid rhwng 16 a 19 dechreuir ymarfer ar nos Fercher, 20 Gorffennaf, rhwng 7 a 9 o'r gloch. Newidwyd noson ymarfer ar gyfer yr hogia rhwng 12 a 16 oed i nos

Fercher, rhwng 6 a 7 o'r gloch, gan ddechrau ar 14 Awst. Ar gyfer hogiau a genod rhwng 7 ac 11 bydd y sesiynnau ar nos Wener rhwng 6 a 7 o'r gloch o 16 Awst ymlaen.

Ym mhob achos bydd croeso i aelodau hen a newydd, profiadol a dibrofiad. Cynhelir y sesiynnau ymarfer gan hyfforddwyr wedi eu cymhwyso gan Undeb Rygbi Cymru. Yn ogystal trefnir gêmiau ar gyfer 'hogia'r oes aur' (h.y., veterans) dros 35 oed a dylid cysylltu â Neil Davies (01248) 354013.

Pigion o'r Ysgol



Mae carfannau pêl-droed Ysgolion Cymru ar gyfer y tymor nesaf wedi eu cyhoeddi. Braf yw nodi y bydd dau o Lanberis yno, sef Martin Willis a Lee Hughes. Bydd y ddau yn y garfan dan 14 oed.

Dychwelodd Dic Parry i'r Ysgol yn ddiweddar i gyflwyno Tlws y bu timau — 14 ysgolion yr hen Arfon a Meirion-Dwyfor yn ymgiprys amdano. Dwy ysgol o Arfon ddaeth i'r rownd derfynol, sef Friars a Brynrefail. Ar y cae-bob-tywydd cafwyd gêm gyfartal o 3-3; Daniel Fletcher (2) a Martin Willis rwydodd i Frynrefail. Ni lwyddwyd i'w gwahanu wedi amser ychwanegol, felly, rhennir y Tlws dros y flwyddyn. Diolch i Hughie Davies, Bethel, am ddyfarnu y gêm. Mae ei gyfraniad i bêl-droed ysgolion dros y blynnyddoedd i'w ganmol.

Ar Orffennaf 6 bydd Llinos Roberts (Bl. 9) o Lanrug yn taflu'r ddisgen dros dim Eryri yng nghystad-leuaeth Athletau Ysgolion Cymru.

Cymeraf y cyfle yma i ddiolch i Keith Withers am ei gyfraniad i chwaraeon yr ysgol yn ystod ei arhosiad ym Mrynrefail a dymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd yn Ysgol Thomas Jones, Amlwch.



Pen yn llonydd . . . bat yn syth . . . ble mae'r ffin . . . ?

Clwb Bangor, ac eleni fe chwaraeodd i ail dîm oedolion y Clwb yn erbyn tîm profiadol Brymbo. Roedd 5 heb fod allan. Mae hefyd yn droellwr dyheuig, yn bowlïo llawchwith yn null Shane Warne. Hyd yma cymerodd 16 wiced yn y gynghrair. Fel y bechgyn eraill a enwais uchod mae Tom yn ddiymhongar ac yn meddu ar y ddawn i wrando.

Ychydig wythnosau yn ôl roeddwn yn ystafelloedd newid Clwb Rygbi Castell-nedd, ac ar y walïau roedd yna sribedi papur ac arnynt y geiriau: 'Tell me . . . Show me . . . Involve me'. Yn achos Tom, a'r lleill o ieuenctid y cylch gobeithio fod digon o bobl i drafod camp, yna dangos y grefft neu'r dechneg, ac

yna greu y strwythur yn gêmiau a thimau i'r plant gael y profiad o chwarae'r gêm.

Nid fy mwriad yw gor-frolio Tom — mae ei gefndir yn mynnu na ddigwydd hynny. Cefais y fraint ym Mangor beth amser yn ôl o chwarae gyda'r cricedwr mwyaf dawnus a welwyd yn y cylch yma, sef Mathew Maynard. Roedd yr un ymroddiad yno. Roedd Mathew a Tom hefyd yn chwarae â gwên gan mai mwynhad yw'r gêm iddynt.

Mae sefydlu y Cyngor Criced Rhanbarthol yng Ngwynedd wedi rhoi cyfle i feithrin a datblygu y doniau sydd allan yna, ac sy'n dymuno sylw. Gobeithio y bydd llawer, fel Tom, yn gwneud eu marc yn y gêm.